

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL</b>	<b>CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE</b>
<b>DYDD LLUN, 5 CHWEFROR 2018 am 1.00 y. p.</b>	<b>MONDAY, 5 FEBRUARY, 2018 at 1:00 p.m.</b>
<b>YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dylan Rees (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*), Alun Roberts, Nicola Roberts

### **Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

### **PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

### **ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)(*Cadeirydd/Chair*)  
Shaun Redmond

### **AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)  
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

## R H A G L E N

### 1 **DATGAN DIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION CYFARFOD 13 TACHWEDD, 2017** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 13 Tachwedd, 2017
- 14 Rhagfyr, 2017 (Galw i Fewn)

### 3 **GOSOD CYLLIDEB 2018/19 (REFENIW A CHYFALAF)** (Tudalennau 19 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori'r canlynol -

- Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ynglyn â'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf am 2018/19 (**Atodiad 1**)
- Y negeseuon allweddol o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer Cyllideb 2018/19 (**Atodiad 2**)
- Adroddiad gan y Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid (Llais Ni) ar ymateb dinasyddion i gynigion arbedion y gyllideb a'r trefniadau craffu ar y gyllideb. (**Atodiad 3**)

*Noder bod yr asesiadau effaith sy'n rhan o adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i ddilyn*

### 4 **PANEL SGRIWTINI CYLLID** (Tudalennau 77 - 88)

Derbyn adroddiad cynnydd ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid hyd yma.

### 5 **BLAEN RAGLEN WAITH 2017/18** (Tudalennau 89 - 94)

Cyflwyno er gwybodaeth ac adolygiad, Rhaglen Waith gyfredol y Pwyllgor am 2017/18.

## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2017

- PRESENNOL:** Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard Owain Jones, Shaun Redmond, Alun Roberts.
- WRTH LAW :** Prif Weithredwr  
Prif Weithredwr Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol  
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151  
Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 4)  
Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 5)  
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 3)  
Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol (ar gyfer eitem 3)  
Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant  
Rheolwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant  
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) (CE) (ar gyfer eitem 3)  
Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR) (ar gyfer eitem 5)  
Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell (RR) (ar gyfer eitem 4)  
Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 3)  
Rheolwr Sgriwtini (AGD)  
Swyddog Pwyllgor (ATH)
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuencid a Diwylliant), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) Gwilym O. Jones (Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio)  
Mr Paul Goodlad (Swyddfa Archwilio Cymru), Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau), Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol; estynnodd groeso arbennig i Mr Paul Goodlad, Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn bresennol fel sylwedydd. Yn ogystal, estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Mr Fôn Roberts, Rheolwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant ar gael ei benodi'n Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor, ac i Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai, ar gael ei phenodi'n Brif Weithredwr Grŵp Cynefin. Dymunodd yn dda iddynt yn eu swyddi newydd.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWIYD AR 4 MEDI, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO SGRIWTINI CORFFORAETHOL CH2 2017/18

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2, 2017/18. Roedd yr adroddiad yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu nodi a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol fod perfformiad ar ddiwedd Chwarter 2 yn gyffredinol dda gyda'r mwyafrif o ddangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ac eithrio 3 dangosydd (un yn y Gwasanaethau Oedolion a dau yn y Gwasanaethau Plant) lle mae perfformiad yn dangos yn Ambr neu'n Goch. Ymhelaethir ar y rhain yn yr adroddiad ac amlinellir y mesurau a gymerir i wella perfformiad yn y meysydd penodol hyn. O ran Rheoli Pobl, roedd y gyfradd absenoldeb salwch ar ddiwedd Chwarter 2 yn 4.25 sy'n well na'r ffigwr o 4.89 am yr un cyfnod yn 2016/17. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i wreiddio'r cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith (DIG) a'r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Er bod 72% o'r cyfweiliadau DIG wedi eu cynnal o fewn yr amserlen erbyn diwedd Ch2 sy'n well na'r ffigwr o 67% yn Ch1, mae'r perfformiad hwn yn parhau i fod yn is na'r targed o 80%. Mae'r ffigyrau CAP ar gyfer Ch2 yn 59%, sy'n is na'r ffigwr o 78% a welwyd yn Ch1 (heb gynnwys ysgolion). Er y gellir parhau i wneud gwelliannau o ran cadw at y Polisi Rheoli Absenoldeb drwy gynnal y cyfweiliadau DIG a chyfarfodydd CAP fel mater o arfer, mae'n galonogol nodi y cyrhaeddwyd y targed salwch cyffredinol ar gyfer y pedwerydd chwarter yn olynol. Os yw'r duedd hon yn parhau, rhagwelir y byddai'r lefel salwch diwedd blwyddyn yn cyfateb i 9.9 diwrnod ar gyfer pob aelod o staff llawn amser cyfatebol (yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd).

Mewn perthynas â rheoli cwynion gan gwsmeriaid, mae'r prif faes sy'n tanberfformio yn ymwneud ag ymatebion hwyr gan y Gwasanaethau Plant, yn bennaf oherwydd methiant i anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen er bod y gwasanaeth wedi cael trafodaeth gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen ar gyfer 22 o'r 25 cwyn a dderbyniwyd.

Mewn perthynas â rheolaeth ariannol, er bod y sefyllfa wedi gwella o gymharu â honno yr adroddwyd arni yn Chwarter 1, mae pwysau cyllidebol sylweddol yn parhau ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac ar y Gwasanaeth Dysgu. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac maent yn gweithio i leihau'r gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol-

- Nododd y Pwyllgor fod **dangosydd y Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r dyddiau a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)** a oedd yn dangos yn Goch yn Chwarter 1 bellach yn Wyrdd, gyda pherfformiad o 196 diwrnod yn erbyn targed o 200. Nododd y Pwyllgor y gweliant a gofynnodd am eglurhad ar y

camau a roddwyd ar waith i sicrhau'r fath welliant. Holodd hefyd a fyddai modd trosglwyddo'r rhain fel arferion da ar gyfer gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y gwasanaeth wedi ymdrechu i gydgyssylltu'n agosach ac yn amlach gyda phartion allanol yn ogystal â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod hynny wedi helpu i hwyluso'r broses o'r adeg pan wneir y cyswllt cyntaf tan y bydd y gwaith wedi ei gwblhau. Gyda chydweithrediad a chydweithio pellach, gobeithir y gellir gostwng ymhellach yr amser a gymerir i ddarparu GCA. Yn y pen draw, llwyddwyd i wneud gwelliannau trwy ddefnyddio mesurau rheoli perfformiad a sicrhau bod pob swyddog yn ymwybodol o'r targedau perfformiad. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Tai i ddod i gytundeb ar y newidiadau i'w gwneud ac i sicrhau eu bod yn cael eu gwneud mewn modd amserol.

- Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad Chwarter 2 yn rhoi sylw i **faterion perfformiad yn y Gwasanaethau Plant** a'i fod yn rhoi diweddariad ar welliannau sy'n gysylltiedig â'r Dangosyddion ar y Cerdyn Sgorio. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a ddylai'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant chwarae rôl ychwanegol o ran monitro a chraffu ar y gwelliannau.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y panel, o safbwynt y swyddogion, yn gweithio'n effeithiol – mae ganddo raglen waith glir a phendant, mae'r rhaglenni'n dangos ôl meddwl ac mae'r cofnodion yn drylwyr. Mae'r gwasanaeth yn ystyried bod y berthynas gyda'r Panel yn fuddiol iawn.

- Nododd y Pwyllgor fod nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng yn sylweddol dros y 6 mis diwethaf, gyda 56 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd o gymharu â 102 ar ddiwedd mis Mawrth, 2017. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad am y gostyngiad a holodd a ellir ei briodoli i gamau a gymerwyd gan y gwasanaeth.

Cadarnhaodd y Swyddogion fod y gwasanaeth wedi adolygu pob achos ac yn arbennig y plant hynny sydd wedi bod ar y gofrestr am gyfnod hir, yn aml fel cam rhagofalus. Lle bo'n briodol a phan aseswyd bod y risg wedi gostwng, gellir camu achosion unigol i lawr a'u monitro trwy ddulliau eraill e.e. trefniadau gofal a chymorth. O ran plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod neu sydd ar y gofrestr, gall y ffigyrau amrywio o ddydd i ddydd. Ers cychwyn adolygiad o'r achosion ar y gofrestr, mae'r niferoedd wedi gostwng ac maent wedi parhau'n weddol gyson ers hynny.

- Nododd y Pwyllgor fod **perfformiad wedi dirywio mewn perthynas â chanran y bobl a oedd yn gofalu am oedolion ac a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac wedi cael un. Roedd y perfformiad o 83.4% yn parhau i fod yn is na'r targed o 93%**. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r dirywiad hwn mewn perfformiad yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflwyno cronfa ddata newydd ac a oedd yna ymyraethau eraill y gallai'r gwasanaeth eu gwneud i wella perfformiad.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad oedd symud i'r gronfa ddata WCCIS newydd wedi cael effaith ar berfformiad. Dim ond dau aelod o staff sydd yn y tîm sy'n gyfrifol am asesu gofalywyr; fodd bynnag, roedd cymorth gan y tîm gwaith

cymdeithasol cyffredinol wedi sicrhau perfformiad da hyd at ddiwedd 2016/17. Er bod perfformiad wedi dirywio ychydig yn ystod hanner cyntaf 2017/18, mae'r gwasanaeth yn hyderus y bydd y perfformiad hwn yn gwella gyda chymorth pellach gan y tîm gwaith cymdeithasol ac y llwyddir i gwrdd â'r targed yn y Dangosydd Perfformiad. Dywedodd y Swyddog y byddai'r gwasanaeth hefyd yn dymuno nodi bod perfformiad yn amrywio ychydig yn ôl ffactorau tymhorol e.e. pwysau gofal annisgwyl neu absenoldeb a all effeithio'n arbennig ar dîm bach. Mae absenoldeb un aelod o'r tîm oherwydd gwyliau yn golygu lleihad o 50% yn y capasiti. Mae modd hyfforddi aelodau eraill o staff i ddarparu'r gwasanaeth os bydd unrhyw aelod o staff yn absennol am gyfnod hir.

- **Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y gellir cynnal a gwella ymhellach y ffigyrau a welwyd y llynedd o ran rheoli cyfraddau absenoldeb salwch.** Nododd y Pwyllgor fod cydymffurfio â'r polisi rheoli absenoldeb trwy gynnal cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb yn gyson ac o fewn yr amserlen yn debygol o sicrhau gostyngiad pellach yn y lefelau absenoldeb. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd, er gwaethaf y gwelliant o gymharu â Chwarter 1 o ran canran y cyfweiliadau DIG a gynhaliwyd, mae perfformiad yn y maes hwn yn parhau i fod yn is na'r targed. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r Awdurdod yn gallu cymryd ymagwedd fwy ragweithiol tuag at gyfweiliadau DIG, er enghraifft, trwy geisio cynnal y cyfweiliadau ar y diwrnod cyn i'r aelod o staff ddychwelyd i'r gwaith. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ynghylch a gedwir data mewn perthynas â demograffeg staff sydd ar absenoldeb salwch ac unrhyw batrymau neu dueddiadau o ran absenoldeb salwch.

Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol nad yw'r Awdurdod bob amser yn cael gwybod ymlaen llaw pa bryd y bydd staff yn dychwelyd i'r gwaith – mae staff yn dychwelyd i'r gwaith pan fônt yn teimlo y gallant wneud hynny. Mae'r panelau her salwch wedi gofyn i wasanaethau wneud cynlluniau wrth gefn mewn amgylchiadau lle nad yw rheolwr ar gael i gynnal y cyfweiliad fel bod rheolwr llinell yn yr adran ar gael i fedru cyfweld. Mae cymorth ar gael i staff am y 5 diwrnod cyntaf ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r holl wasanaethau yn craffu ar absenoldebau salwch gyda'r cydlynnydd absenoldeb salwch er mwyn darganfod unrhyw batrymau absenoldeb sy'n dod i'r amlwg fel y gellir mynd i'r afael â hyn o'r cychwyn.

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) y gall cynnal cyfweiliadau DIG weithiau fod yn fater o logisteg, yn enwedig o ran staff sy'n gweithio y tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor e.e. ysgolion, cartrefi gofal ac ati. Mewn achosion lle mae trefnu cyfweiliad DIG ffurfiol yn anodd, mae'r Awdurdod yn annog rheolwyr i geisio cael sgwrs gyhwynnol gyda staff sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o salwch gan bod hynny wedyn yn hwyluso'r gwaith o gynnal y broses ffurfiol.

Mewn perthynas ag ysgolion, dywedodd y Pennaeth Dysgu bod cynllun wedi ei sefydlu ers dros flwyddyn i wella absenoldeb salwch mewn ysgolion yn benodol. Mae Pennaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu wedi cael cyflwyniad ar y cynllun. Yn ogystal, comisiynwyd swyddog i weithio gydag ysgolion ac o ganlyniad i'r mesurau hyn, mae lefelau absenoldeb mewn ysgolion wedi gostwng yn sylweddol. Darperir diweddariad misol hefyd ar absenoldeb salwch i'r ysgolion er mwyn meincnodi eu perfformiad yn erbyn ysgolion tebyg.

Awgrymodd y Pwyllgor y gallai technoleg ar ffurf templed penodol fod o gymorth i wasanaethau sydd wedi methu targedau neu sy'n ei chael yn anodd cwblhau cyfweiliadau DIG oherwydd materion logisteg, a hynny er mwyn hwyluso'r cyfweiliadau. Fel arall, dylid cyflwyno adroddiad dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor ar sut y gellir hwyluso cyfweiliadau DIG mewn perthynas â staff sy'n anoddach eu cyrraedd.

Dyweddodd y Prif Weithredwr y bydd data Chwarter 3, os bydd yn dangos gwelliant, yn rhoi'r ateb i'r cwestiwn hwn i'r Pwyllgor.

- **Nododd y Pwyllgor, er bod y ffigyrau ar gyfer Ch2 yn well na'r rheini ar gyfer Ch1 mewn perthynas â rheolaeth ariannol, rhagwelir o hyd y bydd gorwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y camau a gymerwyd i ddod â'r pwysau ar y cyllidebau dan reolaeth.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y gorwariant wedi digwydd yn bennaf oherwydd pwysau yn sgil y galw yn y Gwasanaethau Plant, yn enwedig o ran plant sydd angen lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir oherwydd anghenion cymhleth na ellir eu bodloni o fewn y sir bob amser a sgil-effaith hynny ar y ddarpariaeth addysg.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant fod nifer y plant yng ngofal yr Awdurdod wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf a bod honno'n duedd a welir yn genedlaethol. Diwallwyd anghenion rhai o'r plant hyn trwy ddefnyddio lleoliadau y tu allan i Ynys Môn ac, yn dibynnu ar natur y ddarpariaeth, gall y rhain gostio hyd at £250k fesul lleoliad bob blwyddyn. Mae'r Awdurdod yn adolygu'r lleoliadau hyn trwy banel all-sirol a sefydlwyd yn y gwasanaeth i sicrhau bod y lleoliadau hyn yn darparu gwerth am arian a'u bod hefyd yn parhau i ddarparu'r gofal priodol i'r plant dan sylw. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi gofyn i'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu ddarparu cyd-ddadansoddiad pellach o'r sefyllfa yn fewnol. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi buddsoddi yn y Tîm Teuluoedd Gwydn sy'n gweithio gyda nifer o'r plant a'r bobl ifanc hyn i'w galluogi i ddychwelyd i'w teuluoedd a / neu i ofal maeth os yw hynny'n briodol a diogel. Mae'r rhain yn aml yn achosion cymhleth a'r her yw cwrdd ag anghenion yr unigolyn tra'n sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor fod trafodaeth yn digwydd ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd ynghylch y ffordd orau o ddarparu gofal ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Er mai newydd gychwyn mae'r drafodaeth honno, efallai y rhoddir ystyriaeth i ddatblygu cynllun cenedlaethol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Dyweddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y gorwariant ar hyn o bryd yn £2m ac os na fydd hynny wedi newid erbyn diwedd y flwyddyn, bydd yn rhaid ei dalu o'r gronfa wrth gefn cyffredinol. Roedd y gronfa honno'n cynnwys £8.3m ar ddiwedd mis Mawrth, 2017, sy'n gyfforddus uwchben y meincnod o 5% o'r gyllideb net a argymhellir fel arfer, sef £6m yn achos yr Awdurdod hwn. Strategaeth y Pwyllgor Gwaith cyfredol a'r Pwyllgor Gwaith blaenorol fu defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i fuddsoddi mewn mentrau sy'n cynhyrchu arbedion parhaus i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r gronfa ar gael fel arian diwrnod glawog i gwrdd â sefyllfaoedd fel hyn lle mae diffyg ariannol a lle mae galw ychwanegol yn rhoi pwysau ar gyllidebau. Dywedodd y Swyddog fod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn eraill sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i weld a ellir rhyddhau arian ohonynt i'w

ddefnyddio i ailgyflenwi'r gronfa wrth gefn gyffredinol e.e. arian sydd wedi'i neilltuo i gwrdd â chostau sy'n codi o hawliadau tâl cyfartal, sef costau y mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno y gellir eu cyfalafu, sy'n golygu nad oes raid defnyddio balansau'r Cyngor i gwrdd â hwy. Mae'r Awdurdod yn y broses o sefydlu maint y costau ac i bwy y dylid eu talu. Ar ddiwedd y broses honno gellir rhyddhau unrhyw arian sydd ar ôl i'r balansau cyffredinol.

Nododd y Pwyllgor ei fod yn werth mynd i'r afael â lleoliadau gofal cymhleth, cost uchel ar lefel ranbarthol a / neu genedlaethol ac mai dyma'r ffordd orau efallai o leihau'r costau. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Panel Sgriwtini Cyllid wedi comisiynu adroddiad gan y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu ar y mater hwn a'i fod yn monitro'r sefyllfa o ran y gorwariant yn y gyllideb.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r esboniadau a roddwyd am y tanberfformio a'r mesurau lliniaru a gynigir, penderfynodd y Pwyllgor -**

- **Derbyn yr adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch2 2017/18**
- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y nodir ym mharagraffau 3.1.1 i 3.1.4 yr adroddiad, a**
- **Derbyn y mesurau lliniaru fel yr amlinellir hwy yn yr adroddiad.**

## **NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

### **4 STRATEGAETH DDRAFFT AR GYFER Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori Strategaeth ddrafft arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd am y cyfnod 2017 i 2022 er ystyriaeth y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant fod y Strategaeth Ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cynnig dull tair haen o ddarparu gwasanaethau llyfrgell ar Ynys Môn yn y dyfodol, gan anelu at osod sylfeini cadarn a fydd yn golygu y gall y gwasanaeth gwrdd ag anghenion preswylwyr yn ogystal â bodloni'r gofynion statudol dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r tair haen yn cynnwys Llyfrgelloedd Ardal (Llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni) yn Haen 1, Llyfrgelloedd Cymunedol a arweinir gan y Cyngor a chydag elfennau o gefnogaeth gymunedol (Llyfrgelloedd Amlwch, Benllech a Phorthaethwy) yn Haen 2, a Llyfrgelloedd a arweinir gan y Cyngor ac a gefnogir gan y Gymuned (Llyfrgelloedd Biwmares a Rhosneigr) yn Haen 3. Yn ychwanegol at yr uchod, bydd y Gwasanaeth Symudol, gan gynnwys y llyfrgelloedd symudol a'r gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n gaeth i'w tai, yn parhau i fod yn rhan o ddarpariaeth y Gwasanaeth Llyfrgell yn Ynys Môn yn amodol ar adolygiad o'r model a'r llwybrau a fabwysiedir. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft fel yr awdurdodwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror, 2017. Gwnaed hynny dros gyfnod o 12 wythnos yn ystod haf 2017; mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 2. Gwnaed gwaith sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i ddatblygu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell; gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r strategaeth ac i fynegi barn am y 3 opsiwn ar gyfer gweithredu arbedion yn y strwythur staffio.



Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r ddogfen strategaeth ddrafft a gwnaeth y pwyntiau canlynol-

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y dull a fabwysiadwyd o ymgynghori gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau y cafwyd cymaint o sylwadau â phosib o'r holl grwpiau yr effeithir arnynt.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu y cafwyd 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2015 ymysg y cyhoedd a rhan-ddeiliaid i gasglu barn am yr opsiynau a nodwyd gan yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell ac i wahodd unrhyw syniadau amgen. Cafwyd ymateb sylweddol ar-lein ac oddi-ar-lein i'r strategaeth ddrafft arfaethedig (yr arolwg ymgynghori), sef 450 o ymatebion llawn a 28 o ymatebion anghyflawn. Yn ogystal, cafwyd 748 o ymatebion o gyfarfodydd a fynychwyd gan y Cyngor fel rhan o'r gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae Rhan 2 yr adroddiad ymgynghori yn rhoi dadansoddiad o'r methodolegau casglu data a ddefnyddiwyd. Yr opsiynau yw'r gorau y gall y gwasanaeth eu cynnig er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17 i sicrhau gostyngiad o 60% yng nghostau cyffredinol gwasanaethau hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd dros gyfnod y cynllun ac i gyflawni'r arbedion a osodwyd fel targed ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell tra'n cynnal gwasanaeth hyfwrdd ar yr un pryd. Mae'r tri opsiwn a gyflwynwyd ar gyfer sicrhau'r arbedion yn y gyllideb staffio yn cynrychioli'r lefel isaf o arbedion (Opsion A - £50k o arbedion); y lefel uchaf o arbedion (Opsion B - £72k o arbedion) a'r lefel canolrif (Opsion C - £57k o arbedion)

- Nododd y Pwyllgor fod argymhelliad y Swyddog yn cynnig dau ddewis – sef Opsion B neu Opsion C ac nad oes unrhyw sôn am argymhell Opsion A er nad yw'r gwahaniaeth mewn perthynas â chyflawni arbedion ond yn £7k ac er bod llai o risgiau gydag Opsion A.

Dywedodd y Swyddogion mai'r her i'r gwasanaeth oedd sicrhau'r arbedion mwyaf posib; nid yw Opsion A yn cwrdd â'r amcan hwn. Wrth geisio sicrhau cymaint â phosib o arbedion, mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio lliniaru'r effeithiau. Gellir gweithredu'r Strategaeth gyda phob un o'r tri opsiwn ac er mai Opsion B yw'r anoddaf i'w gyflawni o ran risg ac effaith, yr opsiwn hwnnw'n sy'n cynnig y lefel uchaf o arbedion.

- Nododd y Pwyllgor y cynigir model cydweithredol ar gyfer Llyfrgell Biwmares. O gofio'r effaith y gall colli gwasanaeth ei gael ar gymuned, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd defnyddio'r model hwn mewn ardaloedd eraill os bydd yn llwyddo.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Llyfrgell y gofynnwyd am farn pob cymuned ynghylch mabwysiadu'r dull hwn o weithredu. Mae Menter Gymdeithasol Canolfan Biwmares wedi mynegi diddordeb ffurfiol mewn cymryd drosodd y gwaith o redeg y llyfrgell yn y dref; felly, er y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth craidd, mae sgôp i ehangu mynediad drwy'r gymuned. Mae'r model cydweithredol hwn wedi cael ei ystyried a'i gynnig i bob ardal yn Ynys Môn a hyd yma, Biwmares yw'r posibilrwydd cryfaf o ran gwireddu'r opsiwn hwn. Mae Cyngor Cymuned Llanfaelog wedi mynegi diddordeb mewn diogelu Llyfrgell Rhosneigr ac mae'n disgwyl am wybodaeth bellach ar ôl ymgynghori.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddogion a oeddent yn fodlon bod popeth posib wedi'i wneud i annog cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol i ystyried cydweithio fel ffordd ymlaen er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau llyfrgell yn eu hardaloedd.

Cyfeiriwyd yn benodol at Gemaes, yn enwedig yn wyneb dyfodiad Wylfa Newydd a'r posibiladau yn ei sgil o ran cysylltu â Horizon ynghylch buddion cymunedol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu y cysylltwyd â chynghorau cymuned sawl gwaith yn ystod y broses ymgynghori er mwyn ceisio cael ymrwymiad pendant ganddynt i weithio gyda'r Cyngor i gynorthwyo i ddarparu gwasanaeth llyfrgell. Roedd rhai yn teimlo nad ydynt yn gallu helpu oherwydd nad oes ganddynt ddigon o gapasiti neu oherwydd eu bod yn grŵp bach o unigolion brwdfrydig nad yw'n gallu mynd â'r mater ymhellach. Ymateb gwael a gafwyd gan y gymuned mewn rhai ardaloedd. Er bod y gwasanaeth yn ymwybodol o'r posibiladau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd, cyrhaeddwyd pwynt erbyn hyn o orfod ystyried gweithredu'r Strategaeth ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell y cymerwyd tair blynedd i'w llunio. Mae'r drws dal ar agor ar gyfer cael trafodaethau pellach gyda chymuned Cemaes a chymunedau eraill yn y dyfodol lle mae hynny'n ymarferol, yn amodol ar y sefyllfa ariannol ar y pryd. Yn yr un modd, mae'r gwasanaeth yn barod i gydweithredu â Horizon pe bai'r cyfle yn codi, ond erbyn hyn y flaenoriaeth yw gweithredu'r strategaeth.

- Nododd y Pwyllgor gyda siom bod yr ymateb o'r ymgynghoriad gyda phobl ifanc (Rhoscolyn) wedi amlygu diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth llyfrgell a diffyg gwybodaeth am yr hyn y gall ei gynnig. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gan y gwasanaeth strategaeth i farchnata'r gwasanaeth llyfrgell yn yr ardal honno ac mewn ardaloedd eraill.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Llyfrgell fod y strwythur staffio diwygiedig yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhoi yn y prif lyfrgelloedd – 3 aelod o staff a rheolwr; bydd hyn yn creu capasiti o fewn y gwasanaeth i ymgymryd â gweithgareddau marchnata e.e. Facebook ac ati ac i ledaenu gwybodaeth am y gwasanaeth i'r ysgol a'r cymunedau.

- Nododd y Pwyllgor fod perygl o her gyfreithiol a / neu ymyrraeth weinidogol os gweithredir Opsiwn B, er mai dim ond £15k yw'r gwahaniaeth ym maint yr arbedion rhwng Opsiwn B ac Opsiwn C. Holodd y Pwyllgor felly a yw costau'r ymgynghoriad yn cyfiawnhau faint o arbedion y gellir eu cyflawni ac a yw'r costau sylweddol posib yn sgil gweithredu un o'r opsiynau yn fwy na'r arbedion a allai ddeillio ohono. O ystyried bod y Gwasanaeth Llyfrgell yn wasanaeth statudol, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ynghylch a fyddai mabwysiadu Opsiwn B yn debygol o roi'r gwasanaeth mewn sefyllfa ddifrifol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod yr arbedion y mae'r gwasanaeth yn gobeithio eu gwneud ar ddiwedd y 3 blynedd yn ychwanegol at y £50k o arbedion a sicrhawyd dros y 3 blynedd diwethaf, gan ddod â'r cyfanswm i oddeutu £100k. Mae'r gwasanaeth wedi cael arian rheoli prosiect yn y 3 blynedd diwethaf i dalu'r gost o drawsnewid nid yn unig y gwasanaeth llyfrgelloedd ond hefyd y gwasanaeth diwylliant ac ieuencid, felly ystyrir bod modd cyfiawnhau cost un swyddog rheoli prosiect a bod y swydd yn cynnig gwerth da am arian yng nghyd-destun yr holl waith a gyflawnwyd. Yn ogystal, gwnaed y gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad gan swyddogion mewnol y Cyngor, oherwydd teimlwyd bod angen datrysiad o safbwynt y gwasanaeth yn Ynys Môn yn hytrach na datrysiad a fyddai wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr allanol ac y byddai'n rhaid talu iddynt amdano. Mae'r gwasanaeth, o'r cychwyn cyntaf, wedi bod yn ymwybodol o'r her gyfreithiol a'r risg o adolygiad barnwrol sydd wedi bod yn gysgod dros wasanaethau llyfrgell yng Nghymru a Lloegr; y gwahaniaeth yng Nghymru yw'r Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i sefydlu a yw awdurdodau yn cyflawni eu

dyletswydd statudol o ran gwasanaethau llyfrgell. Felly, mae'r gwasanaeth wedi bod yn derbyn cyngor cyfreithiol trwy gydol y broses hon er mwyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau a ddilynir yn gywir a bod Aelodau Etholedig yn ymwybodol o'r darlun cyfan. Mae posibilrwydd o ymyrraeth gan y Gweinidog os bydd y gwasanaeth Llyfrgell yn disgyn yn sylweddol is na gofynion y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus. Dywedodd y Swyddog na allai fod yn hyderus na fyddai'r gwasanaeth o dan straen o ganlyniad i weithredu Opsiwn B ac mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau hynny yn glir. Felly, er bod Opsiwn B yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn cwrdd yn llawn â'r her arbedion, mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Opsiwn hwnnw.

- Er mwyn lliniaru'r effeithiau, holodd y Pwyllgor a ellid cyflawni Opsiwn B fesul cam trwy weithredu Opsiwn C i ddechrau.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu ei bod hi, o safbwynt proffesiynol, yn gobeithio y bydd yr opsiwn a gymeradwyir yn un ar gyfer y tymor canol; ni fyddai'r gwasanaeth yn dymuno cael y baich o gynnal ymgynghoriad arall i gyrraedd Opsiwn B; ni fyddai'n deg i'r staff 'chwaith. At hynny, byddai'n anodd ei reoli yng nghyd-destun y chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus sydd ar y gweill, a hynny o ystyried bod gofynion y safonau'n newid gyda phob fframwaith newydd.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal â'r eglurhad a ddarparwyd gan y Swyddogion ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd -**

- **Bod y Pwyllgor yn fodlon bod y gwasanaeth wedi ymgymryd â'r broses ymgynghori mewn dull sydd mor gynhwysfawr a chynhwysol â phosib.**
- **Bod y Pwyllgor yn fodlon, yn amodol ar nodi'r sylwadau a wnaed ynghylch yr angen i farchnata'r gwasanaeth llyfrgell yn well, bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad Anghenion wedi rhoi sylw i'r holl grwpiau / agweddau y byddai'r Aelodau yn disgwyl iddynt gael sylw.**
- **Bod y Pwyllgor yn argymhell -**
  - **Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Strategaeth ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell am y cyfnod 2017-22, a**
  - **Ei fod yn gweithredu'r newidiadau a gynigir yn y Strategaeth ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell am y cyfnod 2017-2022 fel a ganlyn:**
    - **Cau Llyfrgell Cemaes, Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch, gan barhau i ymchwilio i gamau lliniaru megis pwyntiau mynediad cymunedol a / neu gynyddu'r ddarpariaeth symudol yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt gan y cau.**
    - **Datblygu model cydweithredol gyda Chanolfan Biwmares mewn perthynas â Llyfrgell Biwmares.**
    - **Derbyn ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog mewn perthynas â Llyfrgell Rhosneigr erbyn 2 Ionawr, 2018. Os na ddarperir ymrwymiad cadarn, yna bwrw ymlaen i'w chau yn unol â'r pwynt bwled cyntaf uchod.**
    - **Er mwyn sicrhau'r arbedion mwyaf posib, gweithredu Opsiwn B o fewn y costiau drafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell (Atodiad 5 i'r adroddiad) tra'n derbyn y risgiau fel y nodwyd nhw.**

**NI CHYNGIWIYD UNRHYW GAM GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 5 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU – TAI CYNGOR

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Strategaeth Rheoli ddrafft ar gyfer Asedau'r Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod 2018 i 2023.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai bod y strategaeth yn diffinio dull y Gwasanaeth Tai o reoli asedau'r Cyfrif Refeniw Tai; un o'i brif nodau yw cefnogi cynllun busnes blynyddol y gwasanaeth. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dair thema allweddol mewn perthynas â buddsoddi yn y stoc er mwyn parhau i gwrdd â gofynion Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC); rheoli asedau yn rhagweithiol er mwyn gwella perfformiad eiddo a allai fod yn perfformio'n wael o safbwynt ffactorau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol, a chefnogi amcanion ehangach er mwyn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor y strategaeth a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r Gwasanaeth Tai yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am fenthyciadau i wneud gwaith atgyweirio mawr. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Technegol Tai fod y lwfans wedi ei hawlio yn llawn ar ddiwedd Chwarter 2 ac y gwariwyd cyfanswm o fwy na £2.6m yn ystod Chwarter 1 a Chwarter 2. Mae'r gwasanaeth yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i fonitro sut mae'r grant yn cael ei wario.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud os yw tenantiaid yn gwrthod gwaith gwella ar eu cartrefi, yn enwedig os ystyrir bod y gwaith yn hanfodol.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Technegol Tai bod SATC yn caniatáu i denantiaid wrthod gwaith ar eu cartrefi mewn rhai amgylchiadau e.e. os ydynt yn hapus â'r gegin sydd ganddynt a dim eisiau ei huwchraddio. Er bod pob awdurdod yn parchu hawl tenantiaid i wneud penderfyniadau am eu cartrefi eu hunain, rhaid cydbwysu hyn gyda'r angen i gwrdd â gofynion iechyd a diogelwch. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â thenantiaid sydd wedi gwrthod gwaith uwchraddio, a hynny er mwyn canfod a ydynt wedi newid eu meddwl ai peidio ac yn cytuno bellach i'r gwaith gael ei wneud. Mae unrhyw waith SATC sy'n weddill e.e. ceginau, ystafelloedd ymolchi, ailweirio ac ati yn cael ei wneud yn awtomatig fel mater o bolisi ar ddiwedd tenantiaeth a chyn ailosod y cartrefi. Yn aml gwelir mai tenantiaid hyn sy'n gwrthod gwaith, a hynny oherwydd yr anhwylystod mawr yn mae'n ei olygu weithiau, ond gwelir bod llawer ohonynt wedi newid eu meddwl ers hynny. Mae'r gwasanaeth yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai ar y strategaeth ar gyfer lleihau nifer y gwrthodiadau.

- Nododd y Pwyllgor fod tenantiaid weithiau yn gyndyn o gael ailweirio eu cartrefi'n llawn; gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw rai o'r gwrthodiadau y mae'r gwasanaeth yn gwybod amdanynt yn disgyn i'r categori hwn.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai, er bod rhai tenantiaid wedi gwrthod gwaith ailweirio llawn, mae'r Cyngor fel landlord yn mynnu ei fod yn cael gwneud y gwaith y mae'n rhaid iddo ei wneud i gwrdd â gofynion iechyd a diogelwch a safonau cyfredol e.e. gosod byrddau dosbarthu trydanol newydd.

- Holodd y Pwyllgor a oes gan y Gwasanaeth dystiolaeth ddogfennol i ddangos bod tenant wedi gwrthod gwaith gwella ac i ddangos hefyd bod pob cartref yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch gofynnol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai fod gan y gwasanaeth ffeiliau achos ar bob cartref a'i fod yn gwneud yr holl waith angenrheidiol i sicrhau bod cartrefi yn cwrdd â'r gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol. Er enghraifft, gwneir gwaith ardystio diogelwch cyfarpar nwy bob blwyddyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r safonau cyfreithiol, rheoleiddiol a lleol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu bodloni.

- Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau a sgiliau i allu ymweld â'r stoc tai yn rheolaidd ar gyfer cynnal archwiliadau o gyflwr y cartrefi ac i ddwyn sylw at unrhyw ddiffygion y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai y byddai'r gwasanaeth yn elwa o gael rhagor o swyddogion i gynnal ymweliad archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth 3 swyddog rheoli tai; yn ogystal, mae contractwyr sy'n cyflawni gwaith gwella ar stoc tai'r Cyngor wedi'u hyfforddi i nodi unrhyw beth amheus e.e. arwyddion o drais domestig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gwirio i weld a oes patrwm i'r galwadau am waith neu i weld a yw'r gwariant ar rai eiddo yn uwch nag ar eraill ac i sefydlu'r rhesymau am hynny.

Nododd y Pwyllgor felly fod angen mwy o adnoddau staffio yn y Gwasanaeth i fonitro a goruchwyllo'r stoc tai.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar y gwaith o gynnal y stoc tai, os o gwbl.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cyngor wedi sefydlu rhaglen i baratoi a chynorthwyo tenantiaid mewn perthynas â newidiadau diwygio lles a wneir gan y Llywodraeth fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl. Mae credyd cynhwysol yn effeithio ar bobl mewn tenantiaethau preifat yn ogystal â'r rhai a gyflogir ar gontractau tymor byr ac ati. Fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r CRT, mae'r gwasanaeth yn gwneud gwaith i gynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac i roi prawf ar gadernid y Cynllun Busnes; bydd y Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor sgritini fis Chwefror nesaf i'w herio ac i sicrhau nad yw'r Cyngor wedi cymryd gormod o faich arno'i hun. Ystyrir bod y cynllun 30 blynedd yn gadarn. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o rai o'r anawsterau a wynebir gan awdurdodau eraill o ran cynnydd yn y dyledion rhent a'r dyledion treth gyngor o ganlyniad i newidiadau diwygio lles ac mae'n disgwyl i hynny ddigwydd yn Ynys Môn hefyd ond dim ond yn y tymor byr. Mae'r gwasanaeth yn monitro datblygiadau yng nghynghorau Sir y Fflint a Thorfaen.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar gynllunio buddsoddiadau a holodd a yw'r gwasanaeth yn blaenoriaethu gosod systemau gwresogi newydd er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd / effeithlonrwydd ynni ac a yw'n gallu targedu'r eiddo hynny lle mae tenantiaid angen lleihau eu biliau tanwydd ac yn gallu gwneud hynny. Nododd y Pwyllgor ei bod yn hanfodol helpu aelwydydd a allai fod dan bwysau ariannol oherwydd costau gwresogi eu cartrefi a phwysleisiodd y dylid ystyried dwyn ymlaen y cynlluniau adnewyddu ar gyfer yr aelwydydd hyn.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai fod y gwasanaeth wedi cychwyn ar raglen fuddsoddi ar gyfer gosod boeleri newydd yn y 18 mis diwethaf. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y sail y disgwylir i gylch oes boeleri fod yn 15 mlynedd. Rhagwelir y bydd rhaglenni gosod boeleri newydd yn nodwedd amlwg yn y strategaeth bum mlynedd ar gyfer rheoli asedau. Yn ogystal, mae'r mater wedi cael

sylw'n ddiweddar, gan gynnwys mewn ymweliad gan Swyddfa Archwilio Cymru fis diwethaf lle'r oedd y ffocws ar dargedau a SATC mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni. Nid yw canran uchel o dai Ynys Môn wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy naturiol a gall fod yn anodd cyrraedd y targedau ar gyfer yr eiddo hyn. Mae'r gwasanaeth wedi cytuno â SAC i baratoi adroddiad gwaith sy'n nodi sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y tai sy'n cwrdd â'r safonau; caiff ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai ar ddiwedd y mis.

**Penderfynwyd derbyn y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Rheoli Asedau'r Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod 2018/23 ac argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn ei mabwysiadu.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWD: Y Gwasanaeth Tai i adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Ionawr 2018 ar ei gynlluniau i gynorthwyo aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd ac / neu sydd mewn perygl o dlodi tanwydd.**

## **6 ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN GWELLA AR GYFER Y GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori diweddariad cynnydd ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried. Rhoddodd yr adroddiad grynoded o'r materion sydd wedi derbyn sylw'r Panel dros y ddau fis diwethaf.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Richard Griffiths ei fod yn ymddangos fod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yn hyn. Fodd bynnag, er bod cynnydd da wedi'i wneud ar weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae'r Panel yn dwyn sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol at y ffaith fod swyddi yn parhau i fod yn wag. Mae angen mynd i'r afael â hyn cyn gynted ag y bo modd.

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant yn nodi'r cynnydd hyd yma ynghylch gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth Plant. Roedd yr adroddiad yn amlinellu ffocws y gwaith a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r agweddau canlynol -
  - Ailstrwythuro'r Gwasanaeth
  - Recriwtio
  - Strategaeth Goruchwyllo'r Gweithlu
  - Fframwaith Sicrhau Ansawdd

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran gwella'r gwasanaeth ac, yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan Banel Gwella'r Gwasanaethau Plant a oedd wedi amlygu'r broblem bod swyddi'n parhau i fod yn wag, gofynnodd am eglurhad gan y gwasanaeth ynghylch ei ddull recriwtio gan gyfeirio'n benodol at y pwyntiau canlynol -

- A yw'r gwasanaeth yn hyderus y bydd yn gallu llenwi'r swyddi sy'n wag heb oedi gormodol
- A yw'r Gwasanaeth wedi ystyried cymryd ymagwedd fwy ragweithiol tuag at recriwtio trwy hyrwyddo gwaith cymdeithasol fel gyrfa yn uniongyrchol gydag ysgolion ac mewn ffeiriau gyrfaedd.

- Yn ogystal, a yw'r gwasanaeth wedi ystyried dwysáu'r dull recriwtio trwy farchnata'r Cyngor yn uniongyrchol i brifysgolion fel cyflogwr cefnogol a lle cadarnhaol i weithio ynddo ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd a phrofiadol.
- O ystyried cymhlethdod Gwaith Cymdeithasol yn y maes Plant, y camau y mae'r gwasanaeth wedi'u cymryd i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i staff i'w helpu i ddelio â heriau'r gwaith ac i ddatblygu'n broffesiynol.
- Y cydbwysedd rhwng gweithwyr cymdeithasol profiadol a dibrofiad o fewn y gwasanaeth.

Dywedodd y Swyddogion fod y gwasanaeth yn hysbysebu'n barhaus am weithwyr cymdeithasol yn y maes plant a theluoedd ac, yn y cyfamser, mae gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn darparu gwasanaeth lle bo angen. Mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn parhau i fod yn her i awdurdodau lleol yn rhanbarthol. Mae'r gwaith mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth Gweithlu yn parhau beth bynnag, a bydd hynny o gymorth i recriwtio yn y dyfodol. Yn ogystal â mynd ati i recriwtio o ffynonellau allanol, mae'r gwasanaeth hefyd yn datblygu ymagwedd "datblygu ein gweithwyr ein hunain" gyda'r nod o sicrhau gweithlu cynaliadwy dros amser. I'r perwyl hwn mae'r gwasanaeth wedi cyflogi staff sydd newydd gymhwyso yn ogystal â staff y disgwylir iddynt gymhwyso'n fuan. Bydd eu llwyth achosion yn llai yn y dechrau i'w helpu i ymgynffwrdd â'r gwaith. Elfen arall o'r cynllun recriwtio yw uwch-sgilio gweithwyr cymorth fel y gallant gymryd mwy o gyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos â Phrifysgol Bangor i ddarparu profiad gwaith, ac er yn ymwybodol o'r angen i recriwtio gweithwyr cymdeithasol dwyieithog er mwyn darparu gwasanaeth priodol i deuluoedd, mae'r Awdurdod wedi bod yn ystyried hysbysebu'n genedlaethol gyda'r nod o ddenu unigolion o'r ardal hon yn ôl i ogledd Cymru a all fod yn gweithio yn Lloegr ar hyn o bryd.

Yn ogystal â recriwtio, mae'r Strategaeth Gweithlu yn rhoi pwyslais ar greu diwylliant cefnogol fel y bydd staff eisiau aros gyda'r Cyngor. Mae strwythur newydd y gwasanaeth ynghyd â'r Polisi Goruchwylio newydd yn golygu bod gan reolwyr well ymwybyddiaeth o'r llwythi achos, gan gynnwys unrhyw achosion sy'n peri problemau. Mae Arweinwyr Ymarfer yn fwy ymwybodol o'r gwaith sy'n golygu y gallant roi cyngor a, thrwy'r broses oruchwylio ffurfiol, gallant adolygu achosion ac arferion yn rheolaidd. Mae'r camau hyn yn ychwanegol at drefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer rheoli perfformiad. Mewn achosion anarferol neu eithriadol, mae'r gwasanaeth wedi datblygu protocol ar gyfer staff i'w helpu i sicrhau bod y rheini'n cael eu trin yn briodol ac yn gywir. Er mwyn bod o gymorth pellach i staff mae'r gwasanaeth yn datblygu rhaglen gynefino gyson ac effeithiol.

O ran y gymysgedd o weithwyr cymdeithasol profiadol a dibrofiad, mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn cyflogi 29 o weithwyr cymdeithasol, ac mae 22 ohonynt wedi cymhwyso rhwng 2 a 10 mlynedd yn ôl; mae 1 wedi bod yn gymwys am flwyddyn ac mae 6 wedi bod yn gymwys am lai na blwyddyn.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd trwy'r adroddiadau ysgrifenedig ac ar lafar gan y Swyddogion, penderfynodd y Pwyllgor -

- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant**
- **Nodi ei fod yn ymddangos bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yn hyn.**

- Nodi a chydabod pryder y Panel am y swyddi sy'n parhau i fod yn wag yn y gwasanaeth.
- Bod y Pwyllgor yn fodlon â'r camau a gymerwyd a chyflymder y cynnydd a wneir gan y Gwasanaethau Plant mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn amodol ar nodi bod angen mynd i'r afael â'r swyddi sy'n parhau i fod yn wag.

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWYD:** Ymgorffori awgrymiadau'r Pwyllgor i fabwysiadau ymagwedd fwy uniongyrchol a rhagweithiol tuag at recriwtio yn y Strategaeth Recriwtio e.e. gydag ysgolion a phrifysgolion

## **7 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor am y cyfnod hyd at fis Mehefin, 2018 i'w hystyried a'i adolygu. **Nododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith fel y cyflwynwyd hi heb wneud sylw pellach.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones  
Cadeirydd**



## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard Owain Jones, Shaun Redmond, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts

#### Llofnodwyr y Cais Galw i Mewn nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor

Y Cyngorwyr Bryan Owen, Peter Rogers

#### Aelodau Portffolio

Y Cyngorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd), RG Parry, OBE, FRAGS (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff), John Griffith, Aelod Portffolio Cyllid) Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

**YN BRESENNOL :** Prif Weithredwr  
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Cymunedol a Gwasanaethau)  
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151  
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro  
Pennaeth Gwasanaethau Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo  
Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol (GT)  
Rheolwr Sgriwtini (AGD)  
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU :** Y Cyngorydd R. Meirion Jones, (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuencid a Diwylliant)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

---

#### 1 DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro) ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda.

## 2 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd mabwysiadu'r canlynol -

"O dan Adran 100 (A) (4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail bod gwybodaeth yn cael ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd. "

## 3 TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT – CARCHAR A LLYS BIWMARES

Cafodd penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 i drosglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares ei alw i mewn gan y Cyngorwyr Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers. Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, benderfyniad y Pwyllgor Gwaith, y cais i alw'r eitem i mewn ac adroddiad a baratowyd ar y cyd gan y Pennaeth Dysgu a'r Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar gyfer y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddod i benderfyniad ar y cais galw i mewn, sef -

- Derbyn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017. Yn yr achos hwn, bydd y broses galw i mewn yn dod i ben a bydd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn dod i rym yn syth ar ôl y cyfarfod hwn.
- Gwrthod y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith. Yn yr achos hwn, gall y Pwyllgor gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Pwyllgor gydag argymhelliad y dylid ei ailystyried a / neu ei ddiwygio. Yna byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith roi ystyriaeth bellach i'r mater o fewn 10 niwrnod gwaith gan gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini. Ar ôl hynny, byddai naill ai'n cadarnhau neu'n diwygio'r penderfyniad gwreiddiol.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a chyfeirio'r mater gydag argymhelliad i'r Cyngor Llawn. Nid oes gan y Cyngor unrhyw bŵer i wneud penderfyniad ynglŷn â'r mater oherwydd nid yw'n groes i'r Gyllideb na'r Fframwaith Polisi ac nid yw ychwaith yn anghyson â'r Gyllideb. Byddai'r Cyngor felly yn ymgynnull i ystyried y mater yn unig ac os byddai'n gwrthwynebu'r penderfyniad, ei gyfeirio'n ôl gydag unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith fel corff sy'n gwneud y penderfyniad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a oedd hi'n briodol iddo fel un o lofnodwyr y cais galw i mewn, i gadeirio'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Roedd wedi cael cyngor ei fod yn briodol iddo wneud hynny.

Bu i'r Cyngorydd Bryan Owen, fel Aelod Arweiniol y Cais Galw i Mewn esbonio'r rhesymau dros alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017 fel y'u hamlinellwyd yn y ffurflen gais galw i fewn. Roedd y rhain yn ymwneud â thelerau trosglwyddo'r asedau a'r broses allanoli.

Mewn ymateb, cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor y Pwyllgor at yr adroddiad ysgrifenedig oedd yn nodi'n glir oblygiadau ariannol yr holl opsiynau a ystyriwyd yng nghyswllt trosglwyddiad Carchar a Llys Biwmares. Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn disgrifio cronoleg pob cam o'r broses allanoli. Mae'n un o amcanion Cynllun y Cyngor i gefnogi cymunedau i'w helpu i ddatblygu a ffynnu a hefyd i weithio'n arloesol gyda chymunedau i gadw

asedau pwysig ar agor. Dywedodd bod y camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn cyd-fynd â'r amcan hwnnw.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y broses gyfreithiol a ddilynwyd o ran y cynnig i drosglwyddo'r ased a chadarnhaodd fod y broses wedi'i dilyn yn briodol. Dywedodd nad oedd unrhyw bosibilrwydd realistig o her.

Gofynnodd y Cyngorydd Bryan Owen i'r Pwyllgor dderbyn galw i mewn y penderfyniad a'i gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith i'w ail-ystyried gyda golwg ar ail-redeg y broses allanoli ar gyfer trosglwyddo asedau Carchar a Llys Biwmares.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed. Roedd y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor o blaid peidio â derbyn galw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith a hynny am eu bod yn fodlon mai'r opsiwn a gymeradwywyd oedd yr opsiwn mwyaf manteisiol yn ariannol i'r Cyngor Sir; bod prosesau wedi'u cynnal a'u dilyn yn briodol a bod trosglwyddo'r asedau i awdurdod cyhoeddus arall yn golygu bod y Carchar a'r Llys, fel asedau treftadaeth a thwristiaeth gwerthfawr, yn parhau ym mherchenogaeth gyhoeddus yn eu cymunedau. Wrth ddod i'r casgliad hwn bu i'r Pwyllgor hefyd geisio sicrwydd/eglurhad ynghylch rhai materion penodol mewn perthynas â'r trosglwyddiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid gwrthod galw i mewn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i mewn perthynas â throsglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares. Yn y bleidlais ddilynol, cafodd y cynnig ei gario gan y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd gwrthod galw i mewn benderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 mewn perthynas â throsglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares am y rhesymau a roddwyd.**

*Felly daw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i rym yn syth.*

**Y Cyngorydd Aled Morris Jones  
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>5 Chwefror 2018</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Gosod Cyllideb 2018/19 (Refeniw a Chyfalaf)</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Rhoi ystyriaeth bellach i'r cynigion ar gyfer cyllideb 2018/19</b>
<b>Cadeirydd Sgriwtini:</b>	<b>Cyng Aled Morris Jones</b>
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>Cyng John Griffith</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Marc Jones, Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adain 151</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini</b>
<b>Ffôn:</b>	<b>01248 752578</b>
<b>E-bost:</b>	<b>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Ddim yn berthnasol</b>

### 1 – Argymhelliad / Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

**A1** Gytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith<sup>1</sup> ar gyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 (trwy ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn rhan 4 yr adroddiad), gan gymryd i ystyriaeth y negeseuon allweddol a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar

**A2** Ystyried y priodoldeb o wahodd y Panel Sgriwtini Cyllid i ystyried y meysydd a nodwyd gan ddinasyddion i'w hystyried ar gyfer arbedion pellach posib yn y blynyddoedd i ddod.

### 2 – Cysylltiad â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cysylltiad uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd y sylw a roddir gan y Pwyllgor i'r cynigion ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion hynny'n galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid, yn ogystal â rhoi sylw i unrhyw risgiau penodol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb am y flwyddyn i ddod erbyn 11 Mawrth, 2018 yn unol â'r gofyn statudol. Bydd y cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol yn cael sylw gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018 ac fe'u cyflwynir wedyn i'r Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018 i'w cadarnhau.

### 3 – Egwyddorion i lywio trafodaethau'r Aelodau Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i graffu ar y pwnc: -**

<sup>1</sup> I'w gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 19 Chwefror 2018

**3.1** Effaith yr eitem ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgrïwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

#### **4 - Cwestiynau Sgrïwtini Allweddol**

- i. Sut mae'r cynigion ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y gyllideb yn effeithio ar ddinasyddion? Beth fydd effaith / effeithiau'r cynigion na chawsant eu cefnogi yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar ddinasyddion -
  - Gostyngiad pellach yn lefel y grantiau i fudiadau fel Canolfan Ucheldre, papurau bro a Chwmni'r Fran Wen
  - Cydweithio gyda'r darparwyr cerdd presennol i ddarparu gwersi mewn ffordd sy'n lleihau'r costau rheoli. Ni fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth i'r plant
  - Cynyddu'r Dreth Gyngor o 4% gyda chynnydd pellach o 1% gan neilltuo'r arian yma i gyllido'r pwysau ariannol yn y gwasanaethau cymdeithasol
- ii. Pa gamau lliniaru a gynigir i leihau neu i ddileu unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau a warchodir?
- iii. A ddylid gwneud cymaint â phosib o'r arbedion hynny y nodwyd bod modd eu cyflawni yn 2018/19 o gofio y byddai gwneud hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb i'r gofyn i wneud arbedion yn y dyfodol ac i ymateb i'r pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn?
- iv. Ydy'r Pwyllgor yn cefnogi'r rhagdybiaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r cynigion cyllidebol cychwynnol i gynyddu'r Dreth Gyngor o 4%. Beth ydy barn y Pwyllgor ar gynyddu'r Dreth Gyngor o 5% gan gyfeirio'r 1% ychwanegol tuag at ofal cymdeithasol?
- v. Sut mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2018/19 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun newydd y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid? A oes unrhyw risgiau penodol?
- vi. Pa effaith gaiff cynigion 2018/19 ar Gynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor?
- vii. A oes gan y Pwyllgor Sgrïwtini unrhyw sylwadau ar fforddiadwyedd y gyllideb gyfalaf arfaethedig?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. CYD-DESTUN

**1.1** Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan osod y sylfeini ar gyfer proses well, fwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arferion da. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu dull mwy systematig o graffu ariannol, fel sylfaen hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ar faterion ariannol bellach yn dechrau dod i'r amlwg fel model a all fod yn arfer da.

**1.2** Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod gan y materion ariannol sy'n ein wynebu fel awdurdod lleol effeithiau pellgyrhaeddol – o ran y gwasanaethau a dderbynnir a hefyd y Dreth Gyngor neu ffioedd a thaliadau a godir<sup>2</sup>. Wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd dod o hyd i'r arbedion angenrheidiol trwy arbedion effeithlonrwydd, bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r dewisiadau yr ydym yn eu hwynebu. Bydd hyn yn golygu parhau i ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol ac ynghylch i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau (mewnol ac allanol) wrth wneud y newidiadau angenrheidiol.

### 1.3 Cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb

Fel y trafodir ym mharagraff 3.3 isod, rhoddodd y Panel Sgrwtini Cyllid ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidol drafft cyn ystyriaeth a sylwadau gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol o adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adain 151 yn ei gyfarfod ar 31 Hydref, 2017. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer cyllideb 2018/19 a'r arbedion a nodwyd hyd yma, ynghyd â rhestr o'r arbedion effeithlonrwydd fesul gwasanaeth ar gyfer 2018/19. Cafodd y Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid hefyd yn amlinellu'r cynllun ymgynghori ar gyllideb 2018/19. Gellir gweld crynodeb o drafodaethau'r Pwyllgor yn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor.

**1.4** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol, mae angen i aelodau'r Pwyllgor Sgrwtini ystyried y cynigion yng nghyd-destun sefyllfa ariannol hirdymor ehangach y Cyngor (fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol) a nodau ac amcanion hirdymor y Cyngor (fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017/2022).

## 2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2018/19

**2.1** Gweler ynghlwm adroddiad y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adain 151 ar y cyllidebau referniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018/19 (**ATODIAD 1**) ac sy'n darparu datganiad sefyllfa ar y materion canlynol:

- Cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb
- Y setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol
- Y sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig ar gyfer 2018/19
- Y Dreth Gyngor
- Cronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol
- Cynigion arbedion
- Pwysau cyllidebol

<sup>2</sup> Disgwyliadau Uwch: Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllawiau i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus Mehefin, 2014)

- Risgiau.

### 3. SGRIWITINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2018/19

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n prinhau, yn enwedig cyllid:

*"... Mae pwysigrwydd craffu effeithiol yn cynyddu wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n ceisio'n barhaus i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn unol ag anghenion y gymuned leol ... .."*<sup>3</sup>

Sut i ychwanegu gwerth ym mhob cam o'r broses ariannol ddylai fod y cwestiwn allweddol o safbwynt sgriwitini ariannol. Mae'r **broses gosod cyllideb** yn un o'r camau allweddol hynny.

3.2 Mae Sgriwitini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith. Mae'n golygu sicrhau bod y pwyllgor yn craffu'n effeithiol ar y broses o gynllunio, gweithredu a dilyn-i-fyny y penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Felly dylai Sgriwitini:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod trwy brofi sut mae dewisiadau'n cael eu gwneud ynglŷn â dyrannu adnoddau a pha mor dda y defnyddir adnoddau i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau polisi.

### 3.3 Panel Sgriwitini Cyllid

Bydd yr Aelodau'n cofio bod Panel Sgriwitini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r manteision canlynol:

- Datblygu model o weithio lle mae grŵp llai yn canolbwyntio ar roi sylw i faterion ariannol fel y gall yr Aelodau hynny gymryd mwy o ran a datblygu lefel o arbenigedd, ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwitini Corfforaethol

Mae'r Panel wedi edrych yn fanwl ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2018/19 ac ar grynodedd o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cyflwynir adroddiad llafar i'r cyfarfod gan y Cyngorwyr Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams.

### 4. NEGESEUON ALLWEDDOL O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

4.1 Atodir adroddiad y Rheolwr Cynllunio, Rhaglen a Pherfformiad sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliodd y Cyngor yn ddiweddar. **(ATODIAD 2).**

4.2 Mae'r ymgynghoriad a gynhaliwyd eleni wedi adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y

<sup>3</sup> Sgriwitini Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014



Cyd a sefydlwyd gyda phartneriaid Trydydd Sector.

4.3 Roedd yr ymateb i gynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2018/19 yn eithaf bositif. Derbyniwyd o ddeutu 700 o ymatebion eto eleni drwy'r gwahanol gyfryngau a amlinellir yn yr adroddiad, gydag ymatebwyr yn defnyddio'r holl ddulliau ar gael iddynt i ymgysylltu.

4.4 Y dull mwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eto eleni oedd drwy'r arolwg ar-lein – gyda oddeutu 47% yn ymateb drwy'r sianel hon. Mae hyn yn îs na'r flwyddyn ddiwethaf ond eleni gwelwyd cynnydd yn y niferoedd yn ymateb drwy lythyr neu epost. Mae'r ymatebion hyn yn ymwneud â dau brif fater.

4.5 Derbyniwyd ymatebion gan gyrff megis cynghorau tref, cyrff llywodraethol ysgolion, pobl hŷn ac unigolion ag anableddau, pobl ifanc, athrawon a thrigolion eraill nad oedd modd eu cynnwys mewn grŵp penodol.

4.6 Fel y llynedd, rydym fel Cyngor wedi gallu ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi gallu cyrraedd tua 57,000+ unigolion (6,000+ drwy negeseuon yn y Gymraeg a 51,000+ drwy negeseuon yn y Saesneg) drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfryngau hyn.

4.7 Roedd cydbwysedd i'r ymatebion ar y cyfan. Mae'r diagram isod yn crynhoi'r materion a godwyd:



## 5. YMGYSYLLTU Â DINASYDDION – Y PANEL DINASYDDION A'R CYNGOR IEUENCTID (LLAIS NI)

5.1 Cymerwyd camau i gryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng Aelodau Etholedig y Pwyllgorau Sgrïwtini a dinasyddion, a hynny fel modd o alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan mewn trafodaeth ddemocrataidd ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr

ac i'r dyfodol<sup>4</sup>. Y canlyniad yr oeddem yn dymuno ei weld yn ystod y broses gosod cyllideb oedd bod Sgriwtini'n galluogi trefn ar gyfer clywed llais pobl leol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a llunio polisiau. O safbwynt cenedlaethol, ystyrir bod y gwaith hwn a wneir i ymgysylltu â dinasyddion yn arfer dda. Wrth symud ymlaen, bydd hyn yn datblygu ymhellach yn lleol ar gyfer pynciau eraill sydd ar flaen raglen waith ein pwyllgorau sgriwtini.

## 5.2 Y broses ymgysylltu

Mewn partneriaeth â Medrwn Môn, bu ymgysylltu â dinasyddion yn faes datblygu i ni dros y 6 mis diwethaf<sup>5</sup> ac rydym wedi gwahodd y Cyngor leuenctid a'r Panel Dinasyddion i gyflwyno sylwadau ar y cynigion effeithlonrwydd ar gyfer cyllideb 2018/19 a'r trefniadau sgriwtini. Roedd 3 rhan i'r ymgysylltiad:

- **Cam 1** (31/10/17) – arsylwi yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- **Cam 2** – gwerthuso'r cynigion ar gyfer y gyllideb
- **Cam 3** (05/02/18) – adborth gan ddinasyddion i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Gweler ynghlwm adroddiad gan y Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid sy'n crynhoi ymateb y dinasyddion a gymerodd ran (**ATODIAD 3**).

## 6. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2018/19 wedi rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r cynigion effeithlonrwydd drafft. Yn arbennig, bu'r gyfres o weithdai cyllidebol a gynhaliwyd yn ystod yr hydref yn gyfle i'r aelodau roi ystyriaeth fanwl i bob cynnig am arbedion a gyflwynwyd gan holl wasanaethau'r Cyngor. Cafwyd mewnbyn hefyd gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn sgil ei ystyriaeth fanwl o'r cynigion effeithlonrwydd. Yn ystod y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried unrhyw safbwyntiau terfynol ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19 cyn y bydd y Pwyllgor Gwaith<sup>6</sup> yn ystyried ei gyllideb ddrafft derfynol arfaethedig ar 19 Chwefror.

6.2 Yn wyneb y broses hyd yma ar gyfer gosod cyllideb 2018/19, cynigir felly y dylai'r Pwyllgor:

- i. Ystyried y negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2018/19
- ii. Rhoi sylw manylach i'r effeithiau a gaiff y cynigion y bu pryder amdanynt yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddinasyddion
- iii. Ystyried y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018/19 ymlaen.

## 6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Ynghlwm mae'r asesiadau effaith ar gyfer y meysydd gwasanaeth canlynol a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i asesu effaith y cynigion cyllideb allweddol ar gyfer 2018/19:

1. Gwasanaethau Oedolion

<sup>4</sup> Sgriwtini Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

<sup>5</sup> Datblygydd fframwaith polisi, cynllun gweithredu a datganiad o ddisgwyliadau fel sylfaen i ddatblygu ymhellach ein gwaith ymgysylltu â dinasyddion, trwy Sgriwtini

<sup>6</sup> Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 19 Chwefror 2018

2. Priffyrdd
3. Gwasanaeth Dysgu

### **7 - Goblygiadau Ariannol**

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2018/19, sy'n cynnwys ystyried y cynigion ar gyfer y gyllideb a'r negeseuon allweddol a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar.

### **8 - Atodiadau:**

**ATODIAD 1** : adroddiad y Pennaeth Adnoddau ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018/19

**ATODIAD 2** : negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Cyngor

**ATODIAD 3** : crynodeb o ymateb y Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid i'r cynigion ar gyfer y gyllideb a'r broses o graffu ar y gyllideb

### **9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor,  
Llangefni. LL77 7 TW

**Dyddiad: 22/01/18**

## 2018/19 CYLLIDEB REFENIW

## 1. CYFLWYNIAD A CEFNDIR

- 1.1. Nodwyd y cyd-destun ar gyfer cyllideb refeniw 2018/19 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol ar gyfer 2018/19 i 2020/21 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2017. Ceir crynodeb o'r cynllun yn Nhabl 1 isod: -

**Tabl 1**  
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2018/19 i 2020/21**

	2018/19 £ 'm	2019/20 £ 'm	2020/21 £ 'm
Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen	126.16	125.64	125.77
Pwysau Cyllidebol a chwyddiant	3.66	2.64	2.99
<b>Cyllideb Ddiwygiedig</b>	<b>129.82</b>	<b>128.28</b>	<b>128.76</b>
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	90.80	89.53	89.08
Y Dreth Gyngor	34.84	36.24	37.69
<b>Cyfanswm Cyllid</b>	<b>125.64</b>	<b>125.77</b>	<b>126.77</b>
<b>Arbedion Angenrheidiol</b>	<b>4.18</b>	<b>2.51</b>	<b>1.99</b>
<b>Prif Dybiaethau</b>			
Codiadau Cyflog	1.5%	1.5%	2.0%
Chwyddiant Cyffredinol	2.6%	2.4%	2.2%
Lleihad yn yr AEF	-2.0%	-1.4%	-0.5%
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	4.0%	4.0%	4.0%

- 1.2. Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith ei gynigion cyllidebol cychwynnol yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2017 a chymeradwyodd Gyllideb Ddisymyd gychwynnol o £132.337m ac, yn seiliedig ar y setliad dros dro a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, nodwyd bwch cyllidebol o £1.99m. Roedd y cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn cynnwys cynnydd o 1% a fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Bwriedir ymgynghori mewn perthynas â'r cynnydd ychwanegol hwn o 1% yn y Dreth Gyngor ac, os na chaiff ei weithredu, bydd gostyngiad cyfatebol yn y gyllideb ddisymyd. Yn y cynigion drafft, nodwyd arbedion refeniw posibl o £3.296m.

## 2. CYLLIDEB DDISYMYD DDIWYGIEDIG 2018/19 A'R SETLIAD REFENIW TERFYNNOL

- 2.1. Mae'r gyllideb ddisymyd dros dro o £132.337m wedi'i hadolygu a'i diweddarau i gymryd i ystyriaeth y cynnig cyflog cyfredol i staff CGC, unrhyw ofynion cyllido ychwanegol sy'n deillio o'r setliad grant refeniw terfynol, diweddarau cyllidebau yn seiliedig ar wybodaeth ychwanegol neu ddiwygiedig a chywiro unrhyw wallau neu hepgoriadau a nodwyd yn ystod y broses o wirio'r gyllideb.

- 2.2.** Mae hyn wedi arwain at gyllideb ddisymud ddiwygiedig o £132.688m, sef cynnydd o £0.351m. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y cynnig tâl yn uwch na'r 2% y caniatwyd ar ei gyfer yn y gyllideb wreiddiol ddisymud ac mae hyn yn golygu cynnydd ychwanegol o £485k yn y costau. Yn ogystal, mae'r setliad grant diwygiedig gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys £173k ychwanegol i dalu am yr incwm y bydd y Cyngor yn ei golli drwy godi'r trothwy cyfalaf ar gyfer cleientiaid mewn cartrefi preswyl a nyrsio o £30,000 i £40,000.
- 2.3.** Cyhoeddwyd ffigyrau'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2017. Ar draws Cymru, gwelwyd cynnydd o £38.884m yn yr Aseiad Gwariant Safonol, fodd bynnag, roedd cynnydd hefyd o £10.10m yn y Dreth Gyngor ddisgwyliedig. O ganlyniad, cafwyd cynnydd o £28.784m yn yr AEF cyffredinol i Gymru o gymharu â ffigwr y setliad dros dro ac mae hyn, yn ei dro, wedi newid Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor, gyda'r ffigwr terfynol yn £95.812m, sef cynnydd o £0.888m o gymharu â'r ffigwr dros dro.
- 2.4.** Yn seiliedig ar y gyllideb ddisymud ddiwygiedig o £132.688m a setliad grant refeniw terfynol o £95.812m, byddai'n rhaid i'r Dreth Gyngor gynhyrchu £36.876m. Byddai'r incwm o'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar lefel y Dreth Gyngor yn 2017/18 (£1,088.01 ar gyfer eiddo Band D) ac ar ôl gwneud addasiad ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth yn cynhyrchu £33.482m, sydd £3.394m yn is na'r ffigwr y mae ei angen i ariannu'r gyllideb ddisymud.

### **3. PWYSAU ERAILL AR Y GYLLIDEB**

- 3.1.** Yn ychwanegol at y pwysau ariannol arferol ar gyllidebau a arweinir gan y galw am wasanaethau, mae penderfyniadau sydd yn rhannol y tu allan i reolaeth y Cyngor hefyd wedi arwain at bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys: -
- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) - Bydd y gofyniad ar y Cyngor i gynnal asesiadau DOLS yn flynyddol yn golygu cynnydd sylweddol yn y costau. Amcangyfrifir y bydd angen £172k ychwanegol bob blwyddyn. Gweler y Pwyllgor Gwaith 29 Ionawr 2018.
  - Bid Twf Rhanbarthol – Yr un modd â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru, cytunodd y Cyngor i gyfrannu hyd at £50k yn 2017/18 i gwrdd â chostau paratoi'r fid. Wrth i'r fid symud ymlaen bydd angen cyllid pellach ar lefel debyg.
  - Prosiect STEM - Mae prosiect STEM yn brosiect 4½ blynedd a ariennir yn rhannol o gyllid grant yr UE, yn rhannol gan y sector preifat ac yn rhannol gan y 3 awdurdod lleol yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'r prosiect yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor gyfrannu hyd at £37,500 dros y 4 blynedd nesaf, er y gallai hyn ostwng os yw cyfraniad y sector preifat yn cynyddu.
  - Grant Amgylcheddol Sengl - Trosglwyddwyd rhan helaeth o'r grant Amgylcheddol Sengl, a ddefnyddir yn bennaf i ariannu costau ailgylchu, i'r setliad a chafodd y £920k ar gyfer Ynys Môn ei gynnwys yn y gyllideb ddisymud. Bydd y £26.8m sy'n weddill o'r grant hwn ledled Cymru yn cael ei dorri i £20.79m yn 2018/19 (gostyngiad o 22%). Amcangyfrifir y bydd hyn yn golygu gostyngiad oddeutu £180k yn y grant a delir i'r Cyngor (ffigurau terfynol i'w cadarnhau).
- 3.2.** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi nodi y bydd y pwysau cyllidebol hyn yn cael eu hariannu yng nghyllideb 2018/19 ac mae hyn yn golygu cynnydd o £439k yn y gyllideb ddisymud.

#### 4. Y DRETH GYNGOR

- 4.1. Roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D am 2017/18 yn £1,088.01 sef y 5<sup>ed</sup> isaf yng Nghymru ac yn is na chyfartaledd Cymru o £1,184. Yn bwysicach fyth i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 2 isod: -

**Tabl 2**  
**Cymhariaeth o Gostau Band y Dreth Gyngor Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

Awdurdod	Tâl Band D 2017/18 £	Swm yn uwch / yn is nag Ynys Môn £	Y ganran yn uwch / yn is nag Ynys Môn %
Ynys Môn	1,088		
Gwynedd	1,241	+ 153	+ 14.1%
Conwy	1,113	+ 25	+ 2.3%
Sir Ddinbych	1,191	+ 103	+ 9.5%
Sir y Fflint	1,104	+ 16	+ 1.5%
Wrecsam	1,052	-36	- 3.3%

- 4.2. Dangosir effaith pob cynnydd o 0.5% o 1% i 5% yn Nhabl 3 isod. Dylid nodi nad yw lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn bwysig wrth osod cyllideb 2018/19 yn unig, ond bydd hefyd yn cael effaith ar gyfer 2019/20, gan y bydd y man cychwyn ar gyfer y Dreth Gyngor yn cael ei bennu gan y cynnydd a godwyd yn 2018/19 a bydd hyn yn effeithio ar y cynnydd sy'n ofynnol yn 2019/20.

**Tabl 3**  
**Effaith y lefelau amrywiol o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19**

Cynnydd Canrannol	Y newid yng Nghyllid Cyffredinol y Cyngor £	Tâl Band D 2018/19 £	Cynnydd o Dâl 2017/18 £	Cynnydd Wythnosol o Dâl 2017/18 £
5.0%	+ 1.676m	1,142.37	+ 54.36	+ 1.05
4.5%	+ 1.509m	1,136.97	+ 48.96	+ 0.94
4.0%	+ 1.341m	1,131.57	+ 43.56	+ 0.84
3.5%	+ 1.173m	1,126.08	+ 38.07	+ 0.73
3.0%	+ 1.006m	1,120.68	+ 32.67	+ 0.63
2.5%	+ 0.838m	1,115.19	+ 27.18	+ 0.52
2.0%	+ 0.671m	1,109.79	+ 21.78	+ 0.42
1.5%	+ 0.503m	1,104.30	+ 16.29	+ 0.31
1.0%	+ 0.335m	1,098.90	+ 10.89	+ 0.21

## 5. BALANSIO CYLLIDEB REFENIW 2018/19

5.1. Mae'r gyllideb ddisymud ddiwygiedig ar ôl ariannu'r pwysau ychwanegol o £439k yn £133.127m. Yn seiliedig ar y swm hwn a'r setliad grant referniw o £95.812m, mae Tabl 4 yn dangos lefel yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer y cynnydd amrywiol yn y Dreth Gyngor, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys:-

**Tabl 4**  
**Arbedion sydd eu hangen i sicrhau Cyllideb Cytbwys**

	Cynnydd yn y Dreth Gyngor				
	1%	2%	3%	4%	5%
	£ 'm	£ 'm	£ 'm	£ 'm	£ 'm
Cyllideb Ddisymud Diwygiedig	133.127	133.127	133.127	133.127	133.127
Cyllid Allanol Cyfun	(95.812)	(95.812)	(95.812)	(95.812)	(95.812)
Y Dreth Gyngor	(33.861)	(34.196)	(34.532)	(34.867)	(35.202)
<b>Arbedion Angenrheidiol</b>	<b>3.454</b>	<b>3.119</b>	<b>2.783</b>	<b>2.448</b>	<b>2.113</b>

5.2. Roedd swm y cynigion cychwynnol ar gyfer yr arbedion yr aethpwyd allan i ymgynghoriad yn eu cylch yn £3.396m. Mae'r cynigion wedi cael eu hadolygu wedyn, ac mae cyfanswm y cynigion wedi cael eu haddasu i lawr i £3.315m. Mae'r cynigion unigol ynghlwm fel Atodiad 2, ynghyd â manylion am y gost o'u gweithredu, y camau sydd eu hangen i weithredu'r cynigion, yr amserlen ar gyfer eu gweithredu ac unrhyw risgiau a allai atal eu gweithredu. Mae copi o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr arbedion a gynigir sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd ynghlwm.

## 6. ARIAN WRTH GEFN A BALANSAU

6.1. Ar 31 Mawrth 2017, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £8.355m, sy'n cyfateb i 6.6% o gyllideb referniw net y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd £393k o'r cronfeydd wrth gefn ac amcangyfrifir y bydd angen £2.4m pellach i ariannu'r gorwariant ar gyllideb referniw 2017/18 ac i gwrdd â chyfraniad y Cyngor tuag at gost y llifogydd ym mis Tachwedd.

6.2. Y rheol gyffredinol y mae'r Cyngor wedi ei derbyn yw y dylai'r balansau cyffredinol fod o leiaf 5% o'r gyllideb referniw net. Yn seiliedig ar gyllideb referniw ddrafft oddeutu £130m, golyga hyn y byddai'n rhaid i'r balansau fod oddeutu £6.5m.

6.3. Mae adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r cronfeydd wrth gefn cyfyngedig wedi nodi swm oddeutu £700k yn y cronfeydd wrth gefn y gellir ei ddychwelyd i falansau cyffredinol y Cyngor. Gan gymryd y cyfan o'r addasiadau hyn i ystyriaeth, byddai balansau'r Cyngor yn fras ar 31 Mawrth 2018 yn £6.2m ac, er bod y swm hwn yn llai na'r ffigwr o £6.5m, nid yw'n sylweddol is ac mae'n lefel dderbyniol ar gyfer symud ymlaen.

## 7. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL

- 7.1. Roedd y cynigion cyllidebol cychwynol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 6 Tachwedd 2017 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2017. Amcangyfrifwyd y byddai gostyngiad o 2.0% yn yr AEF yn 2018/19 ac y byddai'r Dreth Gyngor yn codi 4%.
- 7.2. Mewn gwirionedd, arweiniodd y setliad at gynnydd o 0.7% yn yr AEF ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Nid yw'r sefyllfa'n unigryw i Ynys Môn ac roedd mwyafrif y Cyngorau yng Nghymru wedi cynllunio ar gyfer toriad sylweddol yn yr AEF, er bod yr AEF ar gyfer 13 o'r 22 Gyngor wedi codi mewn gwirionedd yn nhermau arian parod.
- 7.3. Mae amcangyfrif newidiadau yn yr AEF yn y dyfodol yn anodd a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi y DU ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi diwygio eu polisi cyllidol ac nid yw clirio diffyg cyllidebol y DU erbyn 2020 bellach yn darged ond , os yw twf economaidd yn is na'r disgwyl, gall hyn arwain at doriadau pellach i gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd y diogelwch a rydd Llywodraeth Cymru i feysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefel y setliadau i lywodraeth leol yn y dyfodol.
- 7.4. Nodwyd yn y setliad dros dro y gallai setliad llywodraeth leol ar gyfer 2019/20 ostwng hyd at -1.5%, er nad yw hynny wedi cael ei ailddatgan yn y setliad terfynol. Mae'r setliad terfynol yn nodi y bydd £20m ychwanegol ar gael yn 2019/20 ond nid yw'n glir a yw hyn ar ôl y gostyngiad o 1.5% ynteu a yw'n disodli'r bwriad i leihau'r cyllid gan 1.5%.
- 7.5. Y senario waethaf ar gyfer y Cyngor fyddai toriad sylweddol pellach yn yr AEF ar gyfer 2019/20 gyda chynnydd bychan o 0.5% yn unig dros y ddwy flynedd ddilynol. Amcangyfrifir y bydd cynnydd o 3% yng nghostau tâl yn 2019/20 ac yna 2% yn y 2 flynedd ddilynol. Amcangyfrifir y bydd chwyddiant prisiau oddeutu 2% ym mhob un o'r 3 blynedd. Gan dybio y bydd cynnydd o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor am y tair blynedd ganlynol, amcangyfrifir y bydd angen arbedion pellach o £6m rhwng 2019/20 a 2021/22.
- 7.6. Senario mwy optimistaidd yw y bydd cynnydd o 0.5% y flwyddyn yn yr AEF ym mhob un o'r tair blynedd. Byddai hyn yn gostwng swm yr arbedion angenrheidiol i £4m dros y cyfnod o dair blynedd.

## 8. CYLLIDEB GYFALAF 2018/19

8.1. Mae'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn seiliedig ar y strategaeth gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Hydref 2017. Amlinellodd y strategaeth y byddai'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn seiliedig ar y 6 prif ffynhonnell o gyllid: -

- Grant Cyfalaf Cyffredinol
- Benthycia â Chymorth
- Derbyniadau Cyfalaf
- Benthycia Digefnogaeth Gymorth ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif
- Grantiau Cyfalaf Penodol (gan gynnwys y Grant ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif)
- Arian Wrth Gefn Cyfalaf



8.2. Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau £250k o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn i ariannu prosiectau Buddsoddi i Arbed.

8.3. Nodir y rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cyllid yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**  
**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2018/19**

<b>Cynllun</b>	<b>Cost y Cynllun</b>	<b>Grantiau Allanol</b>	<b>Cyllid y Cyngor</b>
	<b>£ 'm</b>	<b>£ 'm</b>	<b>£ 'm</b>
Porth Ymwelwyr Ynys Gybi	0.353	0.323	0.030
Lôn Newydd Wylfa	12.000	12.000	0.000
Ffordd Gyswllt Llangefni	2.975	2.677	0.298
Seilwaith Strategol Caergybi a Llangefni	4.727	4.657	0.070
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd	0.400	0.340	0.060
Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	1.858	0.450	1.408
Neuadd y Farchnad Caergybi	1.086	1.086	0.000
Ysgol Santes Dwynwen	3.357	0.958	2.399
Ysgol Parc y Bont	0.070	0.000	0.070
Ysgol Brynsiencyn	0.203	0.081	0.122
Ysgol Bro Llangefni	5.233	2.798	2.435
Ysgol Esceifiog	0.050	0.000	0.050
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	0.750	0.000	0.750
Mynediad i'r Anabl - Adeiladau Addysg	0.300	0.000	0.300
Cerbydau Newydd	0.150	0.000	0.150
Seilwaith TG	0.418	0.000	0.418
Ailwampio Ysgolion	0.500	0.000	0.500
Ailwampio adeiladau ac eithrio Ysgolion	0.400	0.000	0.400
Ailwynebu Priffyrdd	0.699	0.000	0.699
Prosiectau Buddsoddi i Arbed	0.250	0.000	0.250
Gwariant Cyfalaf CRT / Datblygiadau Newydd	12.417	2.660	9.757
<b>CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF</b>	<b>48.133</b>	<b>28.030</b>	<b>20.103</b>
<b>Ariennir gan:</b>			
Grantiau Allanol	28.030		
Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2017/18	1.040		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1.340		
Benthyca â Chymorth	2.203		
Derbyniadau Cyfalaf	0.500		
Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	3.734		
Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	1.279		
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn	0.250		
Refeniw CRT / Cronfeydd Wrth Gefn	9.757		
<b>CYFANSWM Y CYLLID</b>	<b>48.133</b>		

- 8.4.** Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nawdd grant ychwanegol o £30m ar gyfer 2017/18. Dyranriad Môn o'r cyllid ychwanegol hwn fydd £910k. Gellir defnyddio'r grant i ariannu cyllid a gafwyd yn lleol ar gyfer unrhyw brosiect yn 2017/18 ar yr amod bod yr arian yn cael ei ddefnyddio wedyn ar gyfer adnewyddu ffyrdd yn 2018/19. Bydd hyn yn darparu cyllid ychwanegol o £910k yn 2018/19 uwchlaw'r £699k a ddyrennir yn y rhaglen gyfalaf ddrafft.
- 8.5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd ystyried dau brosiect a gyflwynir gan y Gwasanaeth Hamdden i uwchraddio offer ffitrwydd hamdden yng Nghanolfan Hamdden Caergybi ac ar gyfer cae pêl-droed 3G newydd yn Llangefni. Byddai'r ddau gynllun yn cael eu hariannu o fenthyciadau digefnogaeth, gyda'r costau ychwanegol (MRP a Llog) yn cael eu hariannu o'r incwm ychwanegol a gynhyrchwyd.

CYNIGION ARBEDION 2018/19

Tudalen 33

Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
				£'000					£'000	
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Swyddi nad oes eu hangen / Swyddi gwag	Gostwng lefelau staffio yn y Gwasanaeth Priffyrdd wrth i swyddi ddod yn wag.	Dim angen	120	Angen cadarnhau costau diswyddo ar gyfer 1 gweithiwr	3 o weithwyr eisoes wedi gadael, dim ond angen dileu'r swyddi gwag oddi ar y sefydliad. Angen cytuno ar Ddiswyddiad Gwirfoddol y swyddog olaf. Yna angen cytuno ar drosglwyddo'r dyletswyddau i staff eraill ac unrhyw daliadau ychwanegol.	Mai 2018	Bod y costau diswyddo yn rhy uchel a'r cyfnod talu yn ôl ddim yn cyd-fynd â'r meini prawf diwygiedig ar gyfer Diswyddo Gwirfoddol	116	Ail-gyfrifon yn seiliedig ar gostau gwirioneddol y swyddi a fydd yn cael eu dileu
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Rhoi'r gorau i wasanaethau neu eu trosglwyddo	Lleihau costau trafndiaeth gyhoeddus drwy ddod â'r siwrneiau bysus canlynol nad oes fawr o alw amdanynt i ben	EIA1	15	Dim	Cyhoeddi amserlenni diwygiedig a rhoi gwybod i'r contractwyr y bydd y teithiau'n dod i ben.	Ebrill 2018	Lefel uchel o wrthwynebiad cyhoeddus wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad.	15	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Creu Incwm	Cynyddu ffioedd parcio uwchben y raddfa chwyddiant (3%) ond cadw'r ffioedd 50c am hanner awr a £1 am awr. Cynnig cynyddu ffi Parcio a Theithio Llanfair PG o 20c i 50c	Dim angen	5	Dim	Cytuno ar y ffioedd diwygiedig fel rhan o benderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar Ffioedd a Phrisiau yn Chwefror 18	Ebrill 2018	Gwrthwynebiad i'r cynnydd gan Lywodraeth Cymru a ariannodd gost cyfalaf y maes parcio. Ystyriar hyn yn risg isel iawn. Mae'r cynnydd yn y ffi yn golygu gostyngiad yn y defnydd o'r maes parcio, sy'n lleihau'r incwm net.	5	Dim newid

Gwasanaeth A176	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm £'000	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro £'000	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Arbedion Effeithiolrwydd Cyffredinol	Lleihau'r gyllideb ar gyfer costau atgyweiriadau cynnal a chadw goleuadau stryd yn dilyn y buddsoddiad mewn goleuadau LED	Dim angen	20	Dim - eisoes wedi buddsoddi mewn goleuadau LED	Dim	Ebrill 2018	Dim	20	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Arbedion Effeithiolrwydd Cyffredinol	Lleihau costau cerbydau / cludiant drwy gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan / LPG a gwneud mwy o ddefnydd o'r cerbydau llogi contract.	Dim angen	40	Dim - cerbydau trydan LPG yn cael eu defnyddio a chontract llogi eisoes wedi ei sefydlu.	Dim ond angen monitro defnydd	Ebrill 2018	Dim	40	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Creu Incwm	Cynyddu elw'r mândaliadau drwy newid cytundebau tenantiaeth tenantiaid newydd.	Dim angen	25	Dim	Gweithredu cytundeb tenantiaeth newydd bob tro y mae tenantiaeth yn newid	Ebrill 2018	Trosiant annigonol o denantiaethau er mwyn gallu codi rhenti uwch.	25	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Arbedion Effeithiolrwydd Cyffredinol	Lleihau costau'r deunyddiau glanhau ar draws adeiladau'r Cyngor.	Dim angen	25	Dim	Dim - Wrth i nifer y glanhawyr ac amllder glanhau ostwng, bydd costau'r deunyddiau yn gostwng hefyd	Ebrill 2018	Dim	25	Dim newid

Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Creu Incwm	Cynyddu incwm a ddaw o'n stadau diwydiannol pan yn adnewyddu cytundebau / prydlesau.	Dim angen	35	Dim	Gweithredu cytundeb tenantiaeth newydd bob tro y mae tenantiaeth yn newid	Ebrill 2018	Trosiant annigonol o denantiaethau er mwyn gallu codi rhenti uwch.	35	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Trawsnewid Gwasanaethau	Cyflogi plymwr mewnol i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd yn lle defnyddio is-gontractwyr.	Dim angen	20	Dim	Angen hysbysebu a phenodi	Ebrill 2018	Bydd y trosglwyddiad arfaethedig o'r gyllideb Trwsio (R&M) i ysgolion yn effeithio ar y gwaith sydd ar gael i'w wneud gan y plymwr a staff cynnal a chadw mewnol eraill a bydd yn lleihau'r arbedion y gellir eu cyflawni o dan y cynnig hwn.	20	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Swyddi nad oes eu hangen / Swyddi gwag	Lleihau Staffio o fewn y Gwasanaeth Eiddo	Dim angen	35	Dim	Dim - mae'r swydd yn wag	Ebrill 2018	Dim	35	Dim newid
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Rhoi'r gorau i wasanaethau neu eu trosglwyddo	Trosglwyddo toiledau cyhoeddus i sefydliadau eraill.	Dim angen	30	Dim ond bydd y Cyngor yn parhau i dalu trethi busnes yr eiddo sy'n trosglwyddo	Cwblhau'r cytundebau gyda'r Cyngorau Cymuned sydd wedi dod ymlaen	Ebrill 2018	Dim digon o ddiddordeb i gymryd toiledau cyhoeddus drosodd.	30	Dim newid
<b>CYFANSWM AR GYFER PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO 2018/19</b>				<b>370</b>			-		<b>366</b>	

Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Gwasanaethau Oedolion	Trawsnewid Gwasanaethau	Yn dilyn agor cynllun gofal ychwanegol Hafan Cefni, cau cartref preswyl Plas Penlan. Arbedion yn cael eu creu o ganlyniad i gau'r cartref a'r ffaith y bydd trigolion a fyddai wedi eu lleoli mewn cartref preswyl / nyrsio yn y gorffennol yn cael eu lleoli yn Hafan Cefni lle mae costau gofal y pen yn llai.	EIA 2	190	Costau Diswyddo Gwirfoddol ar gyfer staff nad ydynt yn cael cynnig swyddi newydd ac sy'n gweithio ym Mhlas Penlan ar hyn o bryd - bydd angen nodi costau	Yn dibynol ar agor Hafan Cefni. Bydd rhai preswylwyr yn trosglwyddo i Hafan Cefndi ond bydd rhai'n trosglwyddo i gartrefi eraill. Angen nodi a lleoli cleientiaid newydd yn Hafan Cefni	Mehefin 2018 (dyddiad dechrau)	Dim digon o gleientiaid yn cael eu hadnabod ar gyfer Hafan Cefni – er ystyrir mai risg lefel ised ydyw.	190	Dim newid
Gwasanaethau Oedolion	Trawsnewid Gwasanaethau	Cynyddu taliadau uniongyrchol gan 10 cleient	Dim angen	30	Dim	Nodi cleientiaid sy'n fodlon ac sy'n gallu manteisio ar daliadau uniongyrchol	Ebrill 2018	Dim digon o gleientiaid neu bod yr arbedion fesul pecyn gofal yn annigonol i fodloni'r targed	30	Dim newid

Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Gwasanaethau Oedolion	Trawsnewid Gwasanaethau	Newid y ddarpariaeth gwasanaeth gyda'r nod o sicrhau bod mwy o gleientiaid yn medru aros yn eu cartrefi neu yn cael eu lleoli mewn tai gofal ychwanegol yn hytrach na chael eu rhoi mewn cartrefi preswyl	EIA 3	92	Dim	Dim - rhan o'r broses arferol o asesu cleientiaid	Ebrill 2018	Cyfalaf cleientiaid sy'n hunan ariannu sy'n penderfynu mynd i ofal preswyl yn disgyn o dan y trothwy ac eu bod bellach yn cael eu hariannu yn rhannol gan y Cyngor. Petai nhw wedi bod yn gleientiaid i'r Cyngor i ddechrau, efallai na fyddent wedi cael eu rhoi mewn cartref. Unwaith y maent mewn gofal preswyl, nid yw'n bosibl iddynt ddychwelyd adref.	92	Dim newid
Gwasanaethau Oedolion	Trawsnewid Gwasanaethau	Rheoli'r gofyn am wasanaeth gofal cartref gan hybu mwy o gefnogaeth gymunedol a rhwydweithiau personol a fydd yn helpu pobl i aros yn annibynnol. Nod o leihau'r oriau gofal cyffredinol 1%	EIA 4	38	Dim	Dim - rhan o'r broses arferol o asesu cleientiaid	Ebrill 2018	Gwrthwynebiad gan deuluoedd i ddarparu gofal ar gyfer pobl nad ydynt bellach yn cyrraedd y trothwy gofal.	38	Dim newid

Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Gwasanaethau Oedolion	Trawsnewid Gwasanaethau	Symud i gau 4 cegin ac arlwyo o 2 gartref ac yna 1 yn y tymor hir.	EIA 5	100	Efallai y bydd angen buddsoddiad cyfalaf yn y ceginau a gedwir. Costau diswyddo'r staff yn y ceginau a fydd yn cau	Ymgynghorydd wrthi'n asesu'r broses	Ebrill 2018	Efallai y bydd yr Ymgynghorydd yn dod ar draws materion a fydd yn gwneud y gweithrediad yn anymarferol.	100	Dim newid
<b>CYFANSWM AR GYFER GWASANAETHAU OEDOLION</b>				<b>450</b>					<b>450</b>	
Dysgu	Creu Incwm	Cynyddu incwm Oriol Ynys Môn drwy roi mwy o bwyslais ar ei marchnata	Dim angen	15	Angen datblygu'r wefan. Cyllid wedi cael ei nodi	Cwblhau'r gwaith ar y wefan - wedi ei raglennu ar gyfer Mawrth 2018	Ebrill 2018	Y newidiadau ddim yn creu'r incwm angenrheidiol.	15	Dim newid
Dysgu	Trawsnewid Gwasanaethau	Cydweithio gyda'r darparwyr cerdd presennol i ddarparu gwersi mewn ffordd sy'n lleihau'r costau rheoli. Ni fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth i'r plant.	EIA 6	86	Ni fydd y cynnig yn golygu unrhyw gostau gweithredu	Cyrraedd cytundeb gyda Chwmni William Mathias, a all fod yn anodd.	Ebrill 2018	Gwrthwynebiad gwleidyddol cryf (y tu allan i'r Cyngor) i'r newid. Cyngor Gwynedd eisoes wedi cadarnhau nad ydynt yn bwriadu newid eu cyfraniad tuag at y costau rheoli. Mae'r cwmni wedi gofyn bod unrhyw ostyngiad yn cael ei ohirio tan 19/20.	79	Dengys adolygiad o'r gyllideb fod £60k yn cael ei ariannu yn ganolog a £19k gan yr ysgolion



Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Dysgu	Swyddi nad oes eu hangen / Swyddi gwag	Lleihau costau staffio canolog yn yr adran Dysgu	Dim angen	30	Dim	Ailstrwythuro eisoes yn digwydd a bydd wedi ei gwblhau cyn mis Ebrill	Ebrill 2018	Dim	30	Dim newid
Dysgu	Trawsnewid Gwasanaethau	Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell	Dim angen	50	Costau diswyddo staff. Angen costio hyn	Dim - mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r newid	Mehefin 2018	Dim	48	Yr arbediad blynyddol terfynol y cytunwyd arno oedd £57k ond oherwydd na fydd yn cael ei weithredu tan mis Mehefin, bydd llai o arbediad yn 18/19
Tudalen 39 Dysgu	Gostyngiad mewn Grantiau	Toriadau pellach i'r grantiau diwylliant i fudiadau megis Ucheldre, papurau bro a Cwmni'r Frân Wen	EIA 7	20	Dim	Rhoi gwybod i bob sefydliad am lefel ddiwygiedig y grant ar gyfer 18/19	Ebrill 2018	Er bod yr arbediad arfaethedig yn fach, mae ei effaith ar bob sefydliad yn sylweddol. Mae Ucheldre a Cwmni'r Fran Wen angen lefel o gyllid craidd fel y gallant ddenu cyllid o fannau eraill. Gallai lleihau'r grant beryglu'r cyllid ychwanegol hwn.	20	Dim newid
Dysgu	Arbedion Caffael	Ail-dendro'r contract torri glaswellt mewn ysgolion yn lotiau llai er mwyn sicrhau prisiau is erbyn Ebrill 2018.	Dim angen	50	Rhai mân gostau yn gysylltiedig â rhedeg y broses dendro newydd. Cyllidir y rhain o'r cyllidebau cyfredol.	Cwblhau'r gwaith tendro er mwyn sicrhau bod y contractau yn eu lle erbyn haf 18	Ebrill 2018	Nid yw prisiau'r tendrau yn gostwng yn ddigonol er mwyn creu'r arbedion disgwylidiedig.	50	Dim newid

Gwasanaeth	Categori yr Arbediad	Cynnig	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Swm	Cost gweithredu	Camau Gweithredu	Amserlen	Risgiau	Ffigyrau Arbedion wedi eu cywiro	Rheswm am y Newid yn yr Arbediad
Dysgu	Creu Incwm	Cynyddu'r ffioedd bws o 10% (£12) ar gyfer tocynnau bws dan y cynllun seddi gwag i'r plant hynny sydd o fewn 3 milltir i Ysgol Uwchradd a 2 filltir i'r ysgol gynradd	EIA 8	10	Dim	Diweddarau'r ffioedd a'r prisiau. Angen cynnig mwy o ddulliau talu (ar-lein, debyd uniongyrchol) - wedi ei gynllunio ar gyfer mis Medi18	Medi 2018	Gwrthwynebiad gan rieni. Rhieni yn gwneud trefniadau amgen i fynd â'u plant i'r ysgol gan olygu gostyngiad yn lefel yr incwm cyffredinol.	10	Dim newid
Dysgu	Creu Incwm	Cynyddu ffioedd Clwb Gofal Boreol o 75c i £1	EIA 9	15	Dim	Datganoli i'r ysgolion y cyllidebau gwariant ac incwm sy'n gysylltiedig â'r Clybiau Gofal a'r Clybiau Brechwast yn yr ysgolion. Angen cytuno ar fformiwla ddsbarthu gyda'r ysgolion yn y Fforwm Ysgolion	Ebrill 2018	Dim yn cael eu rhagweld	15	Dim newid
Dysgu	Ailstrwythuro Staff	Cyfuno dwy rôl ar wahân o fewn y Gwasanaeth Dysgu yn un rôl.	Dim angen	25	Dim	Rhan o'r broses sy'n ymwneud â'r llyfregelloedd	Mehfin 2018	Dim	21	Ni fydd yn cael ei weithredu tan Mehefin 18

Dysgu	Swyddi nad oes eu hangen / Swyddi gwag	Lleihau costau staffio canolog yn yr adran Dysgu	Dim angen	30	Dim	Ailstrwythuro eisoes yn digwydd a bydd wedi ei gwblhau cyn mis Ebrill	Ebrill 2018	Dim	30	Dim newid
Dysgu	Cyllidebau Ysgolion	Cynnal cyllidebau'r ysgolion ar yr un lefel â 2017/18 drwy ofyn i ysgolion gyllido cost dyfarniadau cyflog a chwyddiant o'u cyllidebau presennol	EIA 10	563	Dim	Penderfynu sut i glustnodi'r toriad ar draws pob sector a rhoi gwybod i'r ysgol am eu cyllidebau diwygiedig	Ebrill 2018	Efallai na fydd ysgolion unigol yn gallu cydbwysu eu cyllidebau heb leihau staff addysgu. Bydd £490k o doriadau a ohiriwyd ers 17/18 yn cael eu gweithredu a fydd yn cynyddu'r golled ariannol i ysgolion. Hefyd, mae disgwyl gostyngiad yn y Grant Gwella Addysg.	563	Dim newid
Dysgu	Cyllidebau Ysgolion	Lleihau'r gyllideb ADY sydd wedi'i dirprwyo i'r ysgolion drwy'r fformiwla.	EIA 10	100	Dim	Dyrannu'r cyllid ysgolion drwy fformiwla a rhoi gwybod i'r ysgol am eu cyllidebau diwygiedig	Ebrill 2018	Mae hwn yn ostyngiad ychwanegol mewn cyllid ysgolion. Fe allai ysgolion unigol wynebu anawsterau o ran gosod cyllideb ar y cyd.	100	Dim newid

Dysgu	Swyddi nad oes eu hangen / Swyddi gwag	Lleihau costau staffio canolog yn yr adran Dysgu	Dim angen	30	Dim	Ailstrwythuro eisoes yn digwydd a bydd wedi ei gwblhau cyn mis Ebrill	Ebrill 2018	Dim	30	Dim newid
Dysgu	Arbedion Caffael	Datganoli mwy o gyllidebau atgyweiriadau a cynnal a chadw i'r ysgolion	Dim angen	100	Dim	Angen cytundeb rhwng Addysg ac Eiddo ar sut orau i sicrhau'r arbediad, h.y. parhau i ddirprwyo'r cyllid a disgwyl i ysgolion ostwng eu costau neu bod Eiddo'n parhau i ddal y gyllideb ond cynhyrchu'r arbedion drwy well trefniadau caffael	Ebrill 2018	Nid yw costau'n lleihau yn ôl y disgwyl pan fydd ysgolion yn gyfrifol am gaffael y gwaith.	100	Dim newid
<b>CYFANSWM AR GYFER DYSGU</b>				<b>1,064</b>					<b>1,051</b>	
**Argymhellir** bod y syniadau hyn yn cael eu trafod ymhellach gan y Panel Cyllid Sgrwtini fel rhan atodol i'r broses presennol i weld os oes lle i'w derbyn fel syniadau gwirioneddol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

## 2. Canfyddiadau

2.1. Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 18/19 dros cyfnod o 7 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae oddeutu 700 o ymatebion wedi'i dderbyn eto eleni ar draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.

- 2.2. Y ffordd fwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eto eleni oedd yr arolwg ar-lein gyda oddeutu 47% yn ymateb drwy'r sianel yma. Mae hyn yn llai na'r un ymateb llynedd ond gwelwyd cynnydd eleni yn ein ymatebion drwy lythyr ac e-byst. Roedd yr ymatebion hyn yn ymwneud a dau fater penodol.
- 2.3. Derbyniwyd ymatebion gan gyrff tebyg l gynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, plant ysgolion, athrawon, a thrigolion eraill na ellid eu grwpio i unrhyw grwp penodol.
- 2.4. Fel y llynedd, rydym hefyd wedi medru casglu'r 'reach' a'r ymgysylltiad a wnaethpwyd fel Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfryngau hyn bu inni gyrraedd oddeutu 57,000+ o bobl. (6,000+ o bobl drwy posts Cymraeg a 51,000+ o bobl drwy'n posts Saesneg).
- 2.5. Bu inni 'bostio'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol nifer o weithiau dros y cyfnod dan sylw (7 wythnos).
- 2.6. Nid yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd cynifer yn cadarnhau eu bod wedi ymweld a'r dudalen ymgynghori ei hun ar y we ond maen't heb os yn dangos bod y niferoedd hyn yn ymwybodol o'r ymgynghoriad oedd wrth waith.
- 2.7. Yn wir, o'r wybodaeth dadansoddol sydd gennym, gweler fod cyrhaeddiad y gwaith marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol eleni wedi golygu ymgysylltiad cryf gydag oddeutu 1,600 o unigolion a fu yn ymweld a'r ymgynghoriad ar ein safle gwe.
- 2.8. Mae'r pwynt hyn yn cael ei ategu yn y niferoedd a ymwelodd a'n safle we corfforaethol yn ystod y cyfnod a'r tarddiad daearyddol hynny o'r unigolion oedd yn ymweld a'r arolwg o wledydd megis –
- 2.8.1. Unol Daliaethau America
  - 2.8.2. Sbaen
  - 2.8.3. UAE
  - 2.8.4. Twrci
  - 2.8.5. De Affrica.
- 2.9. Wedi dweud hynny roedd mwyafrif yr ymweliadau i'n gwefan gan unigolion o'r Deyrnas Unedig (dros 1,500).
- 2.10. Beth ellid nodi eleni yn ogystal yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd aelwydydd yn y pentrefi a trefi canlynol fel rhan o'r ymgynghoriad – Caerdybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy, Niwbwrch, Fali, Gaerwen, Beaumaris, Benllech, Llandegfan, Bodedern, Pentraeth, Gwalchmai, Rhosneigr, Moelfre, Bodorgan, Caergeiliog, LLanfachaeth, Llandona, Llangoed, Llangristiolus, LLanfaelog, Llanfechell, Aberffraw, Marian-glas.
- 2.11. Mae hyn yn galonogol i'w nodi a pe gellid defnyddio'r ystadegyn hyn i dybio bod yr ymatebion a dderbynwyd wedi dod o'r trawsdoriad yma, gellid nodi bod yr ymateb wedi bod yn draws-sirol gyda safbwyntiau'r gwahanol gymunedau wedi'i derbyn.

### 3. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

- 3.1. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad eleni wedi bod yn gadarnhaol ac yn gytbwys ar y cyfan gyda safbwyntiau o blaid ac yn erbyn nifer o gynigion. Ceir tri maes penodol lle mae barn pendant wedi ei gynnig a daw'r meysydd hynny i'r amlwg fel rhan o'r adroddiad hyn. (gweler isod)



- 3.2. O ganlyniad, mae gweddill yr adroddiad yma yn cyfarch yr ymatebion ffurfiol a gasglwyd drwy'r gwahanol ffyrdd a nodwyd yn 1.6 a 1.7 uchod. Caiff ei lunio i gyfarch / ddilyn y testunau / themau perthnasol.

- 3.3. **Gostyngiad yng nghostau Ysgolion.** Roedd 2 argymhelliad i'w cysidro fel rhan o'r ymgynghoriad –

- Cynnal cyllidebau'r ysgolion ar yr un lefel a 2017/18 drwy ofyn i ysgolion gyllido cost dyfarniadau cyflog a chwyddiant o'u cyllidebau presennol - £563,000
- Datganoli mwy o gyllidebau cynnal a chadw i'r ysgolion gan roi'r hawl iddynt reoli gwaith trwsio - £100,000

Cyfanswm y 2 argymhelliad uchod oedd - £663,000.



3.3.1. O'r ymatebion a dderbyniwyd ymddengys bod dau ffordd o feddwl yn gyffredinol. Un ffordd o feddwl gan y rhai hynny sydd yn ymwneud a'r byd addysg yn rheolaidd (sef athrawon / plant / rhieni a llywodraethwyr) ac un arall gan unigolion sydd (yn ymddengys felly) â dim cysylltiad amlwg a'r byd addysgol.

3.3.2. *Parthed yr ymateb gan y rhai sydd yn ymwneud a'r byd addysg daeth yn glir fod yr argymhelliad cyntaf (1) yn un sydd yn gwbl annerbynniol. Nodwyd pwyntiau tebyg i'r canlynol –*

- Education should be the number one concern for any authority and should be protected as a priority.
- Absolutely not. Do you not think schools have taken enough of a beating? Have you ever worked as a teacher?.....scrap this idea now, unethical and immoral
- This is simply a textbook 'pass the buck' move that will see schools enter a new period of severe crisis. I do not support it.
- Mae'r disgrifiad o arbediad ar gyfer dewis 1 yn gamarweiniol I bobl lleig – toriad ydyw I bob cyfrif.....rydym mewn sefyllfa argyfyngus. Mae gwynebu costau ychwanegol yn gwbl amhosib. Mae safonau a natur y gynhaliath eisoes yn dioddef.
- The Schools are stretched as it is.....schools should most definitely not be facing additional costs from their slim budgets.
- Arbediad cyntaf yn gwbl warthus! Man a man I chi gau holl ysgolion Môn, gwarth!

3.3.3. *Ond o safbwynt yr agwedd cadarnhaol i'r cynigion gwelwyd ymatebion tebyg i'r canlynol –*

- .....the schools reduction in cost should be much more radical and there should be a real emphasis on transforming schools across the island, which should extend to secondary schools.....
- Both are sensible
- Seems fair perhaps more PTA's could encourage parents to volunteer their time to help with school repairs (depending on their skills)
- Hardly anyone is getting pay awards these days so the school budget should be maintained at existing levels. The school service isn't improving therefore it's only natural that pay awards should be frozen.....

3.3.4. Yn fras felly, tra bod rhai yn erbyn y fath newid / lleihad, ceir rhai sydd hefyd o blaid. Parthed ymateb gan yr ifanc, roedd yn amlwg fod yna ymdeimlad o rwystredigaeth gydag amryw un o'r grwpiau ffocws yn cydnabod nad oedd ysgolion yn cael tegwch, na ddylid dorri'r cyllidebau presennol a rhoddwyd yr engraifft ymlaen gan un grwp mai nhw oedd wedi gorfod paentio'r ysgol ar benwythnosau yn y gorffennol. Nodwyd fod angen buddosddiad mewn technoleg mewn ysgolion uwchradd, nid toriadau pellach.

3.3.5. Fel y sylwer, nid yw'n fater ddu a gwyn ac ymddengys o'r ymateb bod ystod eitha' eang i'r ymateb.

3.3.6. Parthed yr ail-bwynt a'r argymhelliad i ddatganoli mwy o arian i'r ysgolion - roedd hwn hefyd yn faes lle roedd ymateb ffraeth yn dangos safbwyntiau gwahanol. Noder ar y

pwynt yma fod hwn yn argymhelliad a wnaed ar y cyd rhwng yr Awdurdod a'r Panel Cyllid Ysgolion sydd yn cynnwys Prifathrawon.

### 3.3.7. Cafwyd ymateb tebyg i'r canlynol –

- If there is money in the budget for repairs etc then I agree with pt 2
- Cytuno efo datganoli mwy .....I'r ysgolion gan y gallwn gael prisiau tecach sydd ddim yn cael eu chwyddo gan bod cwmnïau yn gwybod mai'r Cyngor sy'n talu
- This may have merit, but only where schools are genuinely free to choose the contractors / materials that meet best-value criteria.....
- This sounds good but would be totally ineffective as the schools do not have the in-house skills to do this task properly.
- Could would – with parents from schools communities fundraising for repairs.
- Amddifadedd o gyfrifoldeb fyddai datganoli.....fel Prifathro rwy'n gweithio dros 60awr.....fydd na fwy o bres i ni gyflogi rheolwyr busnes??
- Use Education and school reserves for maintenance, surely that's what it's there for?
- Os ydych o'r farn y gellid arbed £100,000 drwy ddatganoli cyllid cynnal a chadw I ysgolion mewn blwyddyn felly mae camweinyddu difrifiol wedi bod ers blynyddoedd.....

3.3.8. Yn ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei nodi eisoes, noder hefyd fod yr Awdurdod wedi derbyn llythyr gan ranbarth Ynys Môn o'r Undeb Addysg Cenedlaethol. Mae'r ymateb yma yn datgan ac yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau statudol i wireddu cynydd mewn cyflog i athrawon ac yn tynnu sylw at y ffaith / tensiwn bod rhai ysgolion yn mynd I fod mewn sefyllfa cryfach nag eraill I wneud hyn fel rhan o'r trafodaethau. Maent yn tynnu sylw tuag at bwyntiau ehangach ym mhapurau'r gyllideb sydd yn cydnabod y cyfrifoldebau hynny gan dynnu sylw at y pwynt os all buddsoddiad gael ei roi I'r ysgolion hynny sydd falle mewn anhawsterau ariannol o fedru delio ar mater y byddent yn teimlo y gallent gefnogi'r arbediad.

3.3.9. I gloi felly ar y gostyngiad mewn costau ysgolion, ymddengys bod yna gydbwysedd amlwg gyda rhai yn erbyn a rhai o blaid. Mae'r drafodaeth uchod yn dangos 'chydig o'r tensiynau hynny.

### 3.4. **Lleihau'r Niferoedd o staff** – lle roedd 6 cynnig yn cael ei argymell ac yn amrywio o

- gyfuno swyddi yn y gwahanol adrannau I greu un swydd,
- I leihau'r nifer o swyddi yn yr adran Eiddo I
- ddileu swyddi yn gyfangwbl yn y gwasanaethau Adnoddau a Trawsnewid

3.4.1. Cyfanswm y gostyngiad hyn oedd £347,000

3.4.2. Roedd yr ymatebion I'r thema hyn yn fwy cadarnhaol na'r gweddill gyda falle mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gytundeb gyda'r toriadau yn hytach nag anghytundeb er bod rhai yn cwestiynu effaith y fath o newidiadau.

3.4.3. Derbynydd sylwadau tebyg I'r canlynol –

- Very surprised that there are not substantially more opps for staff reductions
- Os am redeg y Cyngor fel busnes rhaid gweithredu'r uchod I gyd
- This makes economic sense as if posts are not filled then why do we need the specific role
- Certainly manager posts should be amalgamated and salaries capped.

3.4.4. Er yr ymateb cadarnhaol hyn, roedd yna ymdeimlad fod angen cadw golwg ar bwysau staff oedd yn gorfod cymryd y baich ychwanegol / cwestiynu os oedd y fath leihad yn 'short sighted' yn enwedig ym Mhriffyrdd / Cynllunio o gofio'r pwysau ychwanegol fydd yn dod ein ffordd gyda datblygiadau Wylfa ayyb ac yn holi os oes modd rhoi targedau ariannol pendol I rai I alluogi cynnydd mewn incwm a parhad swyddi penodol.

3.5. **Codi mwy am rai o'r gwasanaethau rydym yn ei ddarparu yw'r thema nesaf – 9 o argymhellion yn cael eu cynnig yma ac yn amrywio o –**

- Cynyddu incwm I'r Oriel drwy roi mwy o bwsylais a rei farchnata
- Cynyddu'r ffioedd bws o 10% (£12) ar gyfer tocynnau cws a'r cynlun seddi gwag
- Cynyddu rhai ffioedd parcio ar draws yr Ynys
- Cynyddu ffioedd clwb gofal boreol o 75c I £1

3.5.1. Cyfanswm y thema hyn oedd £142,000 ac roedd yr ymateb yn fwy cytbwys nag a ragdybwyd yn wreiddiol er bod yna ymdeimlad rhwystredig yn dod drwyodd gan nifer. Cafwyd ymatebion tebyg i'r canlynol –

- Value for money should be considered if intending to increase fees
- Proposals seem fair and wouldn't overtly affect my family
- These proposals seem very unfair to the poor
- Credaf fod cost cludiant uwchradd yn ddud fel ag y mae. Ni ddylid cosbi pobl ifanc sydd yn mynd I'w hysgol dalgylch ac yn byw o fewn 3 milltir I'w hysgol.

3.5.2. Er hyn roedd rhai yn nodi nad oedd y cynnydd mewn costau bws yn deg ac roedd yr ymdeimlad yma yn cael ei gydnabod yn y cyfarfodydd amrywiol a gafwyd fel rhan o'r broses eleni. Nid oedd yn dod drosodd fel cynydd lle roedd ymdeimlad cryf yn y fforymau hynny ond roedd cydnabyddiaeth y byddai teuluoedd yn gwrthio 'nol ar y fath gynnydd pe bai'n cael ei wireddu ac y dylid disgwyl hynny pe bai cytundeb iddo gan y Pwyllgor Gwaith / Cyngor.

3.5.3. Roedd y farn yma yn cael ei adlewyrchu gan yr ifanc hefyd ac roedd y grwp yma yn nodi nad yw'r gwasanaeth ar hyn o bryd 'up to scratch' gyda nhw'n teimlo bod y bysus yn hen, yn aml yn hwyr a dim dealltwriaeth gan yr ysgol na'r dreifwyr yr effaith hynny arnynt os oeddent yn hwyr. Er hyn, roedd grwp bychan o'r ifanc yma yn gweld falle bod lle i fanteision ar ddefnyddio direct debit i dalu'r gost fel y gellid ei wneud yn fwy

cyson drwy'r flwyddyn yn hytrach na un taliad mawr. Teimlad cyffredin ar hyn o bryd oedd bod y broses ddim yn cael ei wiethredu, ei reoli na'i fonitro'n effeithiol.

3.5.4. Yn ychwanegol i hyn, roedd peth anfodlonrwydd gyda y syniad o godi'r ffioedd parcio ar draws yr Ynys gan yr oedd ymdeimlad y byddai'n lladd ein trefi ac yn ei wneud yn anodd iawn i nifer fedru fforddio ymweld a nhw yn rheolaidd. Roedd barn lleiafrifol yn bodoli hefyd yn cydnabod nad yw prisiau parcio Ynys Mon yn cyd-fynd ag ardaloedd twristaidd eraill o gwmpas y Deyrnas Unedig ac y dylid ei gynyddu i gyfateb a'r ardaloedd hynny.

3.6. **Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol** yw'r thema nesa sydd yn cynnwys 5 o gynigion gyda gwerth o £1,135,000.

3.6.1. Mae'r thema hyn yn cydnabod ymateb gwahanol i'r rhai blaenorol lle roedd ymateb cytbwys a dwy ochrog.

3.6.2. Yn wir, mae'r ymateb i'r thema hwn wedi ei lywio gan ymateb eitha' caled yn erbyn y cynnig o doriadau pellach i grantiau diwylliant i fudiadau megis Ucheldre, papurau bro a Chwmni'r Fran Wen.

3.6.3. Roedd yr ymateb hwn yn niferus gyda'n agos i gant (100) o e-byst wedi ei derbyn dros gyfnod y Nadolig yn gwrthod derbyn y cynnig hwn gydag amryw un yn nodi pwysigrwydd y grantiau hynny i ddiwylliant yr ardal a'n iaith a'r angen nid yn unig i'w warchod ond falle edrych ar y cyfleon sydd yn bosib i'w gynyddu.

3.6.4. Roedd grwpiau'r ifanc yn cydnabod y byddai toriad o'r fath yn effeithio ar y genhedlaeth hyn.

3.6.5. Mae'r ymdeimlad wedi bod mor amlwg yn erbyn y cynnig yma mae'r Arwienydd wedi cysylltu'n ol ar ffurf e-bost gyda'r mwyafrif i'w hysbysu o'r camau nesaf a'r ffaith bod y Pwyllgor sgrwtini yn trafod y mater ynghyd a'r Pwyllgor Gwaith cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor ddiwedd mis Chwefror.

3.6.6. Nid oes ymdeimlad cryf yn ebyn nac o blaid y gweddill ond roedd yn galonogol clywed gan y grwp ffocws partneriaethol y dylsa bod cyfleoedd pellach i gyd-weithio ar faterion cysylltiedig fydd o ganlyniad o fudd i'r Cyngor a'r sefydliadau eraill.

3.7. **Trawsnewid Gwasanaeth neu newid y ddarpariaeth** oedd yn thema gafodd lawer o ymatebion yn gwrthwynebu un o'r cynigion perthnasol ar ffurf ymateb traddodiadol (llythyr).

3.7.1. Roedd y cynigion oedd yn berthnasol i'r thema yma yn amrywio o cyflogi plymar mewnlol i leihau costau isgontractwyr, i leihau'r gyllideb ar gyfer costau cynnal a chadw goleuo strydoedd i gwella rheolaeth a defnydd mwy effeithlon gwahanol swyddogaethau ynghyd a cydweithio gyda'r darparwyr cerdd presennol i ddarparu gwersi mewn ffordd sy'n lleihau'r costau rheoli.

3.7.2. Cyfanswm yr arbedion arfaethedig yma oedd - £326,000.

3.7.3. Roedd yr ymatebion l'r mwyafrif o'r cynigion dan sylw yma yn gytbwys hefyd gyda nifer yn cefnogi tra bod eraill yn eu cwestiynu'n fwy. E.e. roedd cydnabyddiaeth ymysg partneriaid ei fod yn syniad da amlygu'r nod o'r angen i sicrhau fod mwy o gleientiaid yn medru aros yn eu cartrefi ond dylsa wneud y penderfyniad hyn wedi dadansoddi y fath effaith y bydda'r nod yma yn ei gael ar y gwasanaeth lechyd a'r gwasanaethau brys.

3.7.4. Roedd y mwyafrif, os nad oll yr ymatebion yn cyd-fynd gyda'r dyhead o leihau'r costau goleuo stryd gydag amryw yn nodi syniadau pellach o safbwynt sut i wneud arbedion pellach yn y maes yma.

3.7.5. Roedd yr elfen o wella rheolaeth a defnydd mwy effeithlon o swyddogion traethau hefyd yn cael ei gydnabod fel maes y gellid cyd-weithio ymhellach gyda mudiadau eraill fel bod budd l'w gael gan bawb. Nodwyd y parodrwydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd a'r drafodaeth partneriaethol hynny.

3.7.6. Yr un cynnig oedd yn sefyll allan o'r rhai a gynigwyd fel rhan o'r thema yma oedd yr un ynglyn a newid yn y ddarpariaeth cerdd bresennol i leihau'r costau rheolaeth. Cafwyd nifer helaeth (oddeutu 100) o ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig yma ac yn wir y pryder mwyaf oedd gan bob un o'r ymatebion oedd yr ansicrwydd parthed yr effaith fyddai'r fath newid yn ei gael ar y ddarpariaeth i blant yr Ynys. Derbynwyd gohebiaeth gan rieni, y Gwasnaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn a phobl ifanc oedd wedi gweld budd o'r ddarpariaeth yn y gorffennol.

3.7.7. Ymddengys o'r ymateb hyn fod gwaith gennym fel Cyngor os ydym am barhau gyda'r newid hyn o fod yn argyhoeddi'r unigolion a'r mudiadau cysylltiedig o'r nod na fydd effaith andwyol ar y ddarpariaeth yn dilyn newid o'r fath.

**3.8. Rhoi'r Gorau i neu Drosglwyddo Gwasanaethau** – roedd y thema hyn yn cynnwys 6 o gynigion oedd yn amrywio o gau Plas Penlan i roi'r gorau i fynychu Sioe Mon i leihau costau trafndiaeth cyhoeddus a throsglwyddo toiledau cyhoeddus i eraill i'w rhedeg.

3.8.1. Cyfanswm yr arbedion arfaethedig yma fel maent yn sefyll yw - £276,000.

3.8.2. Roedd yr ymateb yn eitha' cadarnhaol i'r arbedion yma gyda ymatebion yn cytuno gyda'r mwyafrif.

3.8.3. Yr un maes lle roedd pryder yn codi oedd yr cynnig parthed trosglwyddiad toiledau cyhoeddus i eraill gydag amryw un yn nodi ei bod yn holl bwysig medru cadw'r rhain ar agor ac y bydde medru codi swm am eu defnydd yn un ffordd o wneud hyn. Yr ymdeimlad cyson sydd yn cael ei nodi (gan bawb yn cynnwys yr ifanc) parthed y cynnig hyn yw pa mor bwysig ydynt inni fel cyrchfan twristiaeth.

3.8.4. Roedd y cynnig am rhoi'r gorau i bresenoldeb y Cyngor yn y Sioe yn derbyn ymateb cytbwys gyda rhai yn nodi ei fod yn syniad da ac y dylsa fo fod wedi ei wneud beth amser yn ol tra bod eraill yn nodi ei fod yn bwysig bod gan y Cyngor bresenoldeb cryf yn y Sioe yn flynyddol

### **3.9. Treth Cyngor – codiad pellach o 4% neu 1% ychwanegol I bwrpas gwarchod gwasanaethau cymdeithasol**

- 3.9.1. Fel rhan o'r ymgynghoriad eleni, gofynwyd os oedd gan y trigolion yr awch neu'r parodrwydd I weld cynnydd o 4% ar gostau eu treth Cyngor ac os fydd ganddynt y parodrwydd I wneud hynny, a fyddent yn fodlon gweld codiad ychwanegol o 1% i bwrpas gwarchod gwasanaethau cymdeithasol.
- 3.9.2. Yn wir, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn falle yn ddisgwyliedig gyda'r mwyafrif (72%) yn erbyn codiad o 4% ar y sail bod costau bywyd yn anodd fel mae'n sefyll a bod unrhyw gynydd mewn costau cysylltiedig yn ei wneud yn anodd iawn ar eu bywyd dydd I ddydd. Yr oedd yr ymateb hefyd yn cwestiynu beth fydda sail y codiad a beth fyddent yn ei dderbyn fel gwasanaeth oedd yn wahanol neu yn newydd I'r hyn sydd yn digwydd yn bresennol.
- 3.9.3. Tra bod yr ymateb hyn yn ddisgwyliedig roedd oddeutu 28% o ymatebion oedd yn gysylltiedig ar maes yma yn nodi y byddent yn fodlon gyda'r cynnydd ac eu bod yn gweld y fath gynydd yn fuddiol os yw'n golygu ei fod yn gwarchod gwasanaethau. Roedd ymateb Cyngor Bro Llanfairpwll yn cyd-fynd a'r safbwynt yma.

## **4. Casgliad Terfynol**

- 4.1. I gloi felly, ymddengys or ymatebion sydd yn ymwneud a'r math o arbedion sy'n cael ei cynnig o safbwynt cynigion cyllidebol cychwynol 2018/19 bod yna gydbwysedd amlwg, gyda rhai yn erbyn a rhai o blaid. Mae'r uchod yn dangos 'chydig o'r tensiynau hynny sy'n dilyn ac mae'n cydnabod y tri maes mwya' dadleuol sydd yn gysylltiedig a -

- 4.1.1.1. *Codiad yn nhreth y Cyngor*
- 4.1.1.2. *Newid yn y ddarpariaeth Cerdd*
- 4.1.1.3. *Gostyngiad yn y grantiau diwylliannol*

- 4.1.2. Noder yma hefyd yr ymdeimlad o rwystredigaeth gan yr ifanc tuag at gynnal costau'r ysgolion am y flwyddyn I ddod ar yr un raddfa a llynedd fydd yn golygu'r angen i'r 'sgolion hynny orfod ysgwyddo'r baich ychwanegol o £563,000. Tynnir sylw tuag at yr arbediad yma yn y casgliad ar y sail ei fod yn un o'r arbedion mwya'f a nodir fel rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol.

- 4.1.3. O ganlyniad i'r casgliadau hyn, argymhellir bod y Pwyllgor Sgrwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cysidro'r ymateb fel rhan o'i trafodaethau cyn gwneud argymhellion terfynol a bod Panel Sgrwtini Cyllid y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ystyried y meysydd o arbedion sydd wedi eu cynnig gan ein trigolion fel rhan gyntaf y broses ar gyfer llunio cyllideb 2019/20.**

# Meithrin democratiaeth leol gryfach trwy sgrwtini effeithiol gan Aelodau.

## Adroddiad Gwerthuso – Cynnwys y Panel Dinasyddion a Llais Ni yn Sgrwtini Corfforaethol ar Gyllideb 2018-19



**MYNEGAI****Tudalen**

1. Y cyd-destun	3
2. Beth ydym eisiau ei gyflawni?	4
3. Beth wnaethon ni (y broses)?	4
4. Beth wnaethon ni ddysgu o'r broses?	6
5. Ble awn ni nesaf?	8

**ATODIADAU**

Datganiad o Ddisgwyliad o Gydweithio rhwng Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn a'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid	Atodiad 1
Ychwanegu Gwerth i Sgriwtini: Y Broses o Osod Cyllideb 2017/8 Gwerthusiad o adborth gan Aelodau Llais Ni, Chwefror 2017	Atodiad 2
Posterï recriwtio – Sesiwn mis Hydref 2017	Atodiad 3
Trosolwg o Sesiwn Sgriwtini 31 Hydref 2017	Atodiad 4



## 1. Y Cyd-destun

Mae sgrwtini effeithiol gan Aelodau yn flaenoriaeth genedlaethol i Lywodraeth Cymru:

“Mae sgrwtini effeithiol yn hanfodol ar gyfer sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n cwrdd ag anghenion y cyhoedd ac yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud y defnydd gorau o'u harian.”

[Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol, Tachwedd 2013]

Er mwyn creu'r amodau i alluogi'n cymunedau i fod yn fwy gweithgar a chymryd rhan mewn prosesau sgrwtini bu Medrwn Môn yn gweithio gyda Chyngor Môn i ddatblygu ffyrdd mwy creadigol ac ymgysylltiol o annog pobl leol i gael gwell dealltwriaeth o brosesau gwneud penderfyniadau a datblygu eu sgiliau yn y maes hwnnw.

Cymeradwywyd y papur ar y cyd '*Meithrin democratiaeth leol gryfach trwy sgrwtini effeithiol gan Aelodau*' gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Môn ym mis Tachwedd 2017 ac roedd yn amlinellu'r nodau a'r fframweithiau angenrheidiol er mwyn caniatáu i'n cymunedau gymryd mwy o ran mewn Sgrwtini gan Aelodau Etholedig. Roedd y papur yn edrych ar waith blaenorol a wnaethpwyd gan Llais Ni fel rhan o'r broses Sgrwtini ar Gyllideb 2017-18 a'i argymhellion ynglŷn â:

1. Creu gwahaniaeth clir a ddealladwy rhwng unigolion sy'n cymryd rhan yn y broses fel ymgynghoreion, a'u rôl neilltuol o fod yn rhan o'r broses sgrwtini ar gyfer yr ymgynghoriad hwnnw
2. Cynllunio cynnar i sicrhau fod cymunedau'n cael eu cynnwys mor fuan â phosib yn y broses honno a'u bod yn gallu deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn.<sup>1</sup>
3. Caniatáu mwy o gyfle ac amser i Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor gael mwy o drafodaethau wyneb yn wyneb gyda'u cymunedau ar hyd y daith<sup>2</sup>
4. Manteisio ar y brwdfrydedd a grëwyd gan y sesiynau cychwynol gyda Llais Ni yn 2017 a datblygu hyder Pobl Ifanc ymhellach er mwyn iddynt gymryd rhan yn y broses gyflawn

Gan ddefnyddio'r argymhellion uchod ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<sup>3</sup>, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi nodi pwysigrwydd cynnwys pobl leol yn y broses Sgrwtini ac yn sgil hynny dechreuodd weithio gyda'r Panel Dinasyddion a Llais Ni ym mis Hydref 2017.

Pwrpas a ffocws y gwaith oedd sicrhau fod aelodau'r Panel Dinasyddion a Llais Ni yn datblygu gwell dealltwriaeth o rôl a phwrpas sgrwtini, ei le oddi fewn i strwythurau Gwneud Penderfyniadau Cyngor Môn a sut y caiff gwybodaeth ei ddefnyddio a'i fwydo'n ôl i'r gymuned ehangach ar ddiwedd y broses.

Mae'n bwysig nodi nad bwriad y gwaith hwn oedd casglu ac adrodd ar farn y Panel Dinasyddion a Llais Ni am gynigion y Gyllideb, ond yn hytrach archwilio ac egluro'r rôl y gallent ei chwarae yn y Prosesau Sgrwtini yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwnnw, gan ganiatáu iddynt chwarae rhan fwy cyflawn yn y broses a rhoi'r cyfle iddyn nhw edrych ar y broses o safbwynt mwy gwrthrychol. Mae hyn yn ategu eu rolau unigol gyda'r Panel Dinasyddion a Llais Ni fel cynrychiolwyr eu cymunedau – sef rhoi darlun diduedd o'r cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli.<sup>4</sup>

<sup>1</sup> Fel yr amlinellir yn y Datganiad o Ddisgwyliad o Gydweithio rhwng Sgrwtini Cyngor Sir Ynys Môn a'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid [ATODIAD 1]

<sup>2</sup> Ychwanegu Gwerth i Sgrwtini: Y Broses o Osod Cyllideb 2017/8 – Gwerthusiad o adborth Aelodau Llais Ni, Chwefror 2017 [ATODIAD 2]

<sup>3</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>4</sup> Cyflwynir trosolwg o adborth y Panel Dinasyddion a Llais Ni ynglŷn â chynigion Cyllideb 2018-19 i'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd ar 07/02/2018.

## 2. Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Mae'r canlyniadau a fyddai'n deillio o well ymgysylltiad trwy sgrwtini wedi eu diffinio'n genedlaethol<sup>5</sup> fel a ganlyn:

1. Atebolrwydd democrataidd yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus [**deilliannau gwell**]
2. Y broses gwneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn [**penderfyniadau gwell**]
3. Y cyhoedd yn rhan o drafodaethau democrataidd ynghylch y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol [**ymgysylltu gwell**]

Pan fo'r tri pheth uchod mewn lle, mae Sgrwtini yn fodd i glywed "llais" y bobl leol a chymunedau ar draws yr Ynys fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau.

Ar gyfer y gwaith hwn gyda'r Panel Dinasyddion a Llais Ni cytunwyd y byddai Medrwn Môn yn cynorthwyo Cyngor Môn i sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol o blith grŵp amrywiol<sup>6</sup>. Yn ogystal cytunwyd i ddefnyddio'r dulliau a ddatblygwyd fel rhan o Brosiect Lleisiau Lleol Medrwn Môn i sicrhau fod gwybodaeth, cyfarfodydd ac adborth y prosiect yn cael ei ddarparu ar ffurf oedd yn glir ac yn ddealladwy, ac a oedd yn annog aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid i barhau i gymryd rhan<sup>7</sup>.

Ar y cyd, creodd Cyngor Môn a Medrwn Môn gynllun gwaith ac amserlen o weithgareddau a fyddai'n ymgysylltu a chynnwys y Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid yn y broses sgrwtini, gan ddechrau ym mis Hydref 2017. Byddai'r rhaglen o weithgareddau'n gweithio tuag at gyflawni'r tri deilliant a nodwyd uchod, ac yn arbrofi gyda modelau newydd i sicrhau fod lleisiau pobl leol yn cael eu clywed. Yn ogystal, byddai'r gweithgareddau'n herio canfyddiadau ein cymunedau am sgrwtini ac yn creu mwy o frwdfrydedd yn eu plith i rannu gwersi a ddysgwyd a pharhau i gymryd rhan yn y broses yn y tymor hir.

## 3. Beth wnaethon ni (Y Broses)?

Mewn partneriaeth â Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Cyngor Môn a'r Rheolwr Sgrwtini trefnwyd sesiwn bore cyfan yng Nghyngor Môn ble byddai aelodau'r Panel Dinasyddion a Llais Ni yn:

- cyfarfod â'r UDA,
- cael sesiwn anffurfiol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol, y Cyng. Aled Morris Jones,
- mynychu rhan o'r Cyfarfod Sgrwtini ar Gyllideb 2018-19,
- cael taith o gwmpas Adrannau'r Cyngor gyda chyfle i ofyn cwestiynau ym mhob adran,
- cael sesiwn holi ac ateb gydag Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Llinos Medi Huws.

Er mwyn recriwtio aelodau o'r Panel Dinasyddion a Llais Ni chrëwyd gwahoddiad ar ffurf poster gan y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a chafodd ei e-bostio i'r holl aelodau. Crëwyd poster arall ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a chafodd ei rannu ar facebook a twitter. [ATODIAD 3]. Roedd recriwtio'n broses agored ac yn ymgysylltu â'r rhai oedd â diddordeb gwirioneddol yn y math hwn o brosiect. Casglwyd gwybodaeth Cyfle Cyfartal i fesur a oedd y broses yn gynhwysol. Cafodd cyfanswm o 12 o bobl eu recriwtio.

<sup>5</sup> Sgrwtini da? Cwestiwn da! Astudiaeth Wella gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru: Sgrwtini mewn Llywodraeth Leol (29 Mai, 2014)

<sup>6</sup> Mae gan y Panel Dinasyddion a Llais Ni aelodau sy'n cynrychioli amrywiaeth o gymunedau o ran diddordebau a gallu ac felly mae'n cynrychioli croestoriad da o breswylwyr Ynys Môn

<sup>7</sup> Fel a bennir gan Egyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru (Cyfranogaeth Cymru)

Ar y cyfan, dangosodd Gwerthusiad o'r diwrnod fod y rhai a oedd yn bresennol yn croesawu'r gwahoddiad i gymryd rhan a'u bod wedi eu hysgogi i gael eu cynnwys ymhellach yn y broses. **'Roedd y diwrnod yn addysgiadol iawn ac mae'n hen bryd i'r Cyngor fod yn fwy agored ac yn haws mynd ato. Felly mae'n ymddangos fod hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir'** Aelod o'r Panel Dinasyddion.

Defnyddiwyd yr argymhellion yn yr Adroddiad Gwerthuso<sup>8</sup> i nodi'r camau nesaf yn y broses. Gellir gweld y camau hynny isod:

	GWEITHREDU	ERBYN PRYD?
1	Sesiwn gyda'r swyddog Adran 151 a Dr Gwynne Jones, y Prif Weithredwr, i gael gwybodaeth am gyd-destun y gyllideb a deall sut mae'n gweithio – h.y. arian wedi'i glustnodi, beth ellir ac na ellir ei symud rhwng penawdau ariannol, oes modd i adrannau rannu cyllidebau? ayb	I'w drefnu ar gyfer mis Chwefror 2018
2	Gweithdy ynglŷn â rôl a phwrpas sgrwtini (yn seiliedig ar y sesiwn gyda Llais Ni y llynedd), er mwyn nodi a deall y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer sgrwtini ( <a href="https://medium.com/localgovernmentscrutiny/9-essential-skills-for-effective-scrutiny-a784d48fcd19">https://medium.com/localgovernmentscrutiny/9-essential-skills-for-effective-scrutiny-a784d48fcd19</a> ), amserlen a phroses ayb	I'w drefnu ar gyfer mis Chwefror 2018
3	Medrwn Môn a phartneriaid Lleisiau Lleol i rannu Cynigion y Gyllideb gyda'r Panel Dinasyddion a Llais Ni a chynnal sesiwn i gasglu cwestiynau gwybodus ynglŷn â chynigion y gyllideb.	Rhagfyr 2017
4	Sesiwn Sedd Boeth/Holi ac Ateb gydag aelodau portffolio a/neu Benaethiaid Gwasanaeth gan ddefnyddio'r cwestiynau a gasglwyd yn y sesiwn a amlinellir yn 3 uchod.	Rhagfyr 2017
5	Darparu amserlen wedi ei symleiddio o gyfarfodydd a sesiynau i'r Panel Dinasyddion a Chyngor Ieuenctid	Rhagfyr 2017

Yn deillio o'r argymhellion uchod, trefnodd Cyngor Môn a Medrwn Môn sesiwn Holi ac Ateb ar 11 Rhagfyr, rhwng 12 a 2pm yng Nghyngor Môn. Er mwyn paratoi ar gyfer y sesiwn, anogwyd Aelodau'r Panel Dinasyddion i feddwl am eu sesiwn gyntaf ym mis Hydref ac i feddwl am unrhyw gwestiynau yr hoffent eu cyflwyno ynglŷn â phrosesau gwneud penderfyniadau a'r hyn yr oeddent wedi ei ddysgu am sgrwtini.

Derbyniwyd cyfanswm o 15 cwestiwn ac fe'u cyflwynwyd i Gyngor Môn cyn y sesiwn a drefnwyd ar gyfer 11 Rhagfyr. Fodd bynnag, er bod digon o ddiddordeb ym mis Hydref, ac oherwydd nifer o resymau gwahanol, dim ond 1 aelod o'r Panel Dinasyddion ac 1 aelod o Llais Ni oedd ar gael i gymryd rhan yn y sesiwn. Penderfynodd Cyngor Môn ohirio'r sesiwn Holi ac Ateb ac yn hytrach i drefnu fod y cwestiynau'n cael eu hateb a'u cyflwyno i'r aelodau drwy gyfrwng e-bost.

Fel rhan o'r prosiect Lleisiau Lleol ehangach cafodd yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb ei hyrwyddo gan Swyddog Ymgysylltu'r Panel Dinasyddion a Swyddog Ymgysylltu Llais Ni gan annog eu haelodau i gymryd rhan os oedd hynny bosib. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd sesiynau unigol gyda'r unigolion oedd yn ymwneud â'r broses sgrwtini er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng eu rolau, fel y nodir yn Adran 1 yr adroddiad hwn<sup>9</sup>.

<sup>8</sup> Trosolwg o Sesiwn Sgrwtini 31 Hydref 2017 [ATODIAD 4]

<sup>9</sup> Cynhwysir y safbwyntiau a gasglwyd am yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb mewn adroddiad ar wahân ar gyfer y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd – mae llawer o'r wybodaeth â gasglwyd yn ymwneud ag

Rhannwyd y ddogfen Cwestiynau ac Atebion gyda'r rhai oedd yn bresennol yn y sesiwn ym mis Hydref, ynghyd â gwahoddiad iddyn nhw fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol i'w gynnal ddydd Llun, 5 Chwefror er mwyn rhannu eu profiadau.

## 4. Beth wnaethon ni ddysgu o'r broses?

Yn y Papur ar y Cyd 'Meithrin Democratiaeth Leol Gryfach Trwy Sgrwtini Effeithiol gan Aelodau' cytunwyd ein bod yn cydnabod y byddai angen i ni ganolbwyntio ar werthuso'r broses a dysgu o'r broses er mwyn cael darlun o ansawdd y cynnydd tuag at sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer sgrwtini. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i ni nodi meysydd sydd angen eu gwella ac adnabod unrhyw arfer dda y gellir ei rannu.

Ar gyfer y broses hon yn benodol rydym wedi gwerthuso cynnydd, o'r gwaith cychwynnol o baratoi'r dogfennau yn gwahodd aelodau i gymryd rhan yn y broses sgrwtini i'r adborth a dderbyniwyd yn y ddogfen Cwestiynau ac Atebion. Rhestrir isod y gwersi cyffredinol:

1. **Barn Gyffredinol** – dywedodd aelodau o'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid i'r broses fod yn un werthfawr iddynt, yn arbennig y sesiwn a gynhaliwyd gydag Arweinydd y Cyngor ym mis Hydref. Cyfeiriwyd yn benodol at y ffaith fod y rhan hon o'r sesiwn yn anffurfiol ac yn addysgiadol. Roedd hynny wedi eu hysgogi i ddechrau meddwl am yr hyn yr oeddent am ei weld yn digwydd nesaf yn y broses – sef y Sesiwn Holi ac Ateb.

Mae gan y rhan fwyaf o'r 12 aelod gwreiddiol ddiddordeb o hyd mewn cymryd rhan yn y broses, ac maent wedi bod mewn cyswllt â Swyddogion yn Medrwn Môn drwy e-bost drwy gydol y broses.

Yn ogystal, dywedodd yr aelodau eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a roddwyd iddynt gan Gyngor Môn ym mis Hydref, a bod yr atebion a roddwyd gan y Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddog y Cyngor wedi eu cynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth gyffredinol o sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a rôl hanfodol sgrwtini er mwyn sicrhau fod effaith y penderfyniadau a wneir yn cael eu monitro'n effeithiol.

Mae aelodau'r Panel Dinasyddion a Llais Ni wedi croesawu'r cyfle i gael sgwrs ddwy ffordd gydag Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor, ac wedi mynegi'r awydd i gael mwy o gyfleoedd i weithio yn y modd hwn.

2. **Sgrwtini neu Ymgynghori?**- Mae dau unigolyn a gymerodd ran yn y broses wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â'u rôl yn y broses, pa un ai fel ymgynghoreion neu fel rhan o grŵp o bobl sy'n edrych ar sut y defnyddir sgrwtini'n ymarferol. **'Pam fod y Cyngor wedi'n gwahodd i gymryd rhan? Ai er mwyn darganfod beth yw ein barn am y Gyllideb neu fel grŵp y gofynnir iddo edrych ar brosesau sgrwtini mewn gwahanol feysydd?'** Aelod o'r Cyngor leuenctid.

**'Ymddengys fod yr atebion i'r cwestiynau a ofynnais i gyd yn cyfeirio at y Gyllideb ac nid at y broses gwneud penderfyniadau yn gyffredinol'** Aelod o'r Panel Dinasyddion

**'Gallaf weld pam y byddai o bosib yn well gan y Cyngor ganolbwyntio ar y gyllideb, gan mai dyna oedd [ffocws eu hymgyngoriad], ond dwi'n meddwl fod rhywbeth wedi'i gollu rhwng taith aelodau Panel Llais Ni a'r Panel Dinasyddion o gwmpas y Cyngor a gofyn / disgwyl i'r cynrychiolwyr ofyn cwestiynau am y Gyllideb. Yn arbennig, gan fod diddordeb a chwestiynau'r**

---

effeithiolrwydd yr ymgynghoriad yn hytrach na barn unigolion am gynigion y Gyllideb (h.y. fformat, amserlenni ayb).

***cynrychiolwyr cymunedol yn ystod y daith Cwrdd â'r Cyngor yn canolbwyntio fwy ar ddarparu gwasanaeth (sut oedd opsiynau'n cael eu harchwilio a phenderfyniadau'n cael eu gwneud) yn hytrach nag ar benderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb'***

Panel Dinasyddion

Mae hyn yn adlewyrchu agweddau a ddaeth i'r amlwg yng ngwerthusiad y prosiect sgrwtini gwreiddiol gyda Llais Ni yn 2016-17. Fel camau gweithredu ar gyfer symud ymlaen, nodwyd datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r broses o symud o ymgynghori i Sgrwtini gan Aelodau. Er bod Swyddogion Ymgysylltu Llais Ni a'r Panel Dinasyddion wedi bod yn glir o ran ceisio gwahaniaethu rhwng ymgynghori a sgrwtini yn ystod y broses hon, awgrymir fod hyn yn cael ei nodi fel cam gweithredu y mae angen parhau ei ddatblygu wrth symud ymlaen.

3. **Amseroedd, dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd** - Roedd 12 aelod o'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf ym mis Hydref. Cynhaliwyd y sesiwn hon ben bore yn ystod gwyliau hanner tymor. Os edrychwn ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac adborth aelodau'r Panel Dinasyddion a Llais Ni a'u gweithwyr cefnogi, mae'n amlygu pwysigrwydd ac effeithiolrwydd cynnal cyfarfodydd ar adegau sydd fwyaf hwylus i'n cymunedau.

Mae'n rhaid nodi fod Swyddog Ymgysylltu'r Cyngor leuenctid wedi gorfod trefnu a thalu am gludiant er mwyn i'r bobl ifanc fod yn bresennol yn y sesiwn honno. Yn ogystal roedd rhaid i ni sicrhau fod gweithwyr cefnogi ar gael ar gyfer 3 aelod.

Er gwaetha'r ffaith fod nifer dda o'r aelodau'n bresennol yn y sesiwn gyntaf ym mis Hydref, a bod awydd ymhlith y grŵp i gymryd rhan yn y sesiwn Holi ac Ateb ym mis Rhagfyr, canfyddom fod yr amser, dyddiad a lleoliad a gynigiwyd yn creu mwy o rwystr i'r aelodau fod yn bresennol. Am nifer o resymau, nid oedd aelodau'n gallu bod yn bresennol - gyda mis Rhagfyr yn nodweddiadol am fod yn gyfnod prysur i bobl yn gyffredinol.

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gallu bod yn bresennol oherwydd bod y cyfarfod wedi'i drefnu ar ddiwrnod ysgol, ac er gwaethaf ymdrechion i drefnu gyda'r Ysgolion a'r Colegau eu bod yn cael amser i ffwrdd dywedodd nifer o'r bobl ifanc fod ganddyn nhw arholiadau neu asesiadau gwaith coleg yn ystod yr wythnos honno a bod rhaid iddyn nhw flaenoriaethu eu hamser. Dywedodd aelodau'r Panel Dinasyddion un ai fod ganddyn nhw ymrwymadau teuluol, neu nad oeddent ar gael yn syml oherwydd amser y flwyddyn.

O ganlyniad, dim ond un aelod o Llais Ni ac un aelod o'r Panel Dinasyddion ddywedodd eu bod yn gallu bod yn bresennol. Unwaith eto mae'r gwersi a ddsygwyd o hyn yn amlygu'r angen i fod yn fwy creadigol gydag amseroedd, dyddiadau a lleoliadau'r sesiynau a drefnir, ac i gydbwysu hynny gyda chynllun gwaith sgrwtini o fewn Cyngor Môn i sicrhau fod y ddwy ochr yn gallu cymryd rhan yn y broses mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.

Cynigiodd Cyngor Môn ateb arall, drwy drefnu fod y cwestiynau a baratowyd yn wreiddiol ar gyfer y sesiwn yn cael eu hateb drwy gyfrwng e-bost. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ystyried beth ydym gyda'n gilydd yn ei gyfrif fel cynrychiolaeth, a phryd i barhau â'r trefniant neu i aildrefnu, neu gynnig fformat arall fel bod yr ymgysylltu hwnnw'n parhau.

4. **Beth ydym yn ei gyfrif fel cynrychiadol?** Yn ei adborth ynglŷn â chanslo'r sesiwn Holi ac Ateb ym mis Rhagfyr, cwestiynodd un person ifanc beth oedd barn Cyngor Môn ynglŷn â'r hyn sy'n gynrychiadol o safbwynt gwerthfawrogi eu presenoldeb yn y cyfarfod. Roedd y person ifanc yn benodol yn cwestiynu pam gafodd y cyfarfod ei

ganslo os oedd un aelod o'r Panel Dinasyddion ac un aelod o Llais Ni'n gallu bod yn bresennol a chynrychioli safbwyntiau aelodau eraill oedd wedi bod yn rhan o'r broses.

Cyffelybwyd hyn â rôl Aelodau Etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned a oedd yn mynychu cyfarfodydd ac yn cynrychioli barn eu cymunedau.

Mae'r Panel Dinasyddion a Llais ni ill dau wedi eu sefydlu ar strwythur sy'n caniatáu i aelodau gasglu barn gan y gymuned ehangach, cynrychioli'r farn honno a rhoi adborth ar ddatblygiadau. Wrth symud ymlaen bydd rhaid i ni gael eglurhad ynglŷn â beth mae'r partneriaid yn ei farnu yw cynrychiolaeth yng nghyd-destun cynnwys pobl leol yn y broses sgrwtini ac addasu ein gweithgareddau i gyd-fynd â hynny.

- 5. Y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a ffeithluniau** - Crëwyd dau boster i wahodd aelodau o Llais Ni a'r Panel Dinasyddion i gymryd rhan yn y broses. Darparwyd y cyntaf gan Gyngor Môn ac fe'i hanfonwyd at yr holl aelodau ar ein cronfeydd data. Ymatebodd 9 person i'r gwahoddiad.

Ymatebodd 11 person arall i'r ail boster a grëwyd gan brosiect Lleisiau Lleol Medrwn Môn a'i hysbysebu ar Facebook.

Yn ogystal recriwtiwyd 4 person drwy sefydliadau oddi fewn i Lleisiau Lleol – sef Age Cymru Gwynedd a Môn a Digartref.

Mae hyn yn dangos pa mor effeithiol yw defnyddio dulliau cymysg er mwyn ymgysylltu, ynghyd â'r angen i addasu gwybodaeth i sicrhau fod pawb sy'n dymuno cael eu cynnwys yn gallu cael at y wybodaeth. Mae hwn yn agwedd o'r prosiect y gellir ei ddatblygu ymhellach yn y tymor hir fel enghraifft o arfer dda o ran ymgysylltu â phrosesau sgrwtini.

- 6. Yr heriau mwyaf**- Mae gwerthusiad yr enghraifft hon o gydweithio wedi amlygu nifer o'r un materion y deuir ar eu traws wrth geisio ymgysylltu ein cymunedau ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r brif her a amlygir gan y gwaith penodol hwn yn ymwneud â phennu amserlenni, amseroedd a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd, a sut ydym yn ymdrin â'r angen i gael cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd eu hunain. Yn ogystal mae'n rhaid cael dealltwriaeth glir fod rhaid i'r broses fod mor gynhwysol â phosib, gan ganiatáu amser a chyfle i drefnu cludiant, gweithwyr cefnogol a darparu gwybodaeth ar ffurf hygyrch. Yn ogystal mae'n rhaid rhoi amser i'r holl bartneriaid fod yn hyblyg ac yn greadigol mewn achosion lle nad yw Cynllun A yn ymarferol bellach.

Rydym yn glir fod a wnelo hyn â chyflawni'r hyn a ddisgrifiwyd yn genedlaethol fel sicrhau canlyniadau effeithiol ar gyfer Sgrwtini ac felly mae'n rhaid sicrhau fod y strwythur yr ydym yn ei roi mewn lle yn ein galluogi ac yn ein cynorthwyo i wneud gwahaniaeth gwirioneddol [dylai'r ffurf ddilyn y swyddogaeth].

## 5.1 ble awn ni nesaf?

***'Mae gan sgrwtini rôl o ran deall beth sy'n bwysig, casglu gwybodaeth a thystiolaeth, ceisio barn amrywiol a sicrhau ei fod yn sail i ddatblygu datrysiadau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol'*** @gatehousem #scrutiny18

Mae'n bwysig cydnabod fod nifer o agweddau cadarnhaol yn deillio o'r gwaith partneriaeth sydd wedi digwydd ers mis Hydref.

O'r herwydd mae angen i ni werthuso'r llwyddiannau a gafwyd ar hyd y daith; maen nhw'n fodlon â'r broses a theimla'r mwyafrif fod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn ymgysylltu. Ni ddylem ganolbwyntio'n ormodol ar y ffaith fod y sesiwn ym mis Rhagfyr wedi cael ei chanslo gan fod aelodau wedi cynnal eu diddordeb ac wedi cynnig adborth adeiladol iawn ynglŷn â symud ymlaen.

Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd datblygu argymhellion ein gwerthusiad dros dro ym mis Hydref-Tachwedd, a'r adborth ar ôl derbyn y ddogfen Cwestiynau ac Atebion, ac yn awr byddwn yn rhoi sylw i'r meysydd a ganlyn er mwyn cryfhau ein hymgysylltiad â phobl Ynys Môn ymhellach:

- Ailsefydlu rôl a phwrpas yr unigolion o'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid sy'n cymryd rhan - ***'Dwi'n meddwl bod angen mwy o wybodaeth / trafodaeth am y meini prawf sy'n llywodraethu'r gwasanaethau a ddarperir, h.y. Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a sut mae cyfyngiadau diffyg cyllid a thorri adnoddau drwy'r amser yn effeithio ar y penderfyniadau a wneir oddi fewn i'r meini prawf hynny. Sut mae strategaeth arbed arian y Cyngor yn gweithio? Dwi'n meddwl mai dyna'r allwedd os ydym yn gwneud unrhyw waith sgriwrtini, mae'n rhaid iddo ymwneud â sut mae'r Cyngor yn glynu at ei bwrpas penodol neu a oes rhaid iddo addasu / newid y pwrpas hwnnw oherwydd cyfyngiadau ariannol, a bod y Cyngor yn gwbl dryloyw. A oes modd cael cyfarfod wedi ei arwain gan y Cyngor i edrych ar hyn a beth a ddisgwylir gan y panel sgriwrtini cymunedol fel ein bod yn gallu datblygu / cytuno ar ein cylch gorchwyl neu ein defnyddioldeb'*** Aelod o'r Panel Dinasyddion
- Adlewyrchu ar yr hyn a ddysgir a sicrhau ein bod ni oll yn ymwybodol o flaen raglenni gwaith Sgriwrtini. Yna, dylid gwneud gwaith i gryfhau ymgysylltu drwy roi hyder i aelodau'r Panel Dinasyddion a Llais Ni ddewis y pynciau y maen nhw eisiau gweithio arny'n nhw.
- Nodi sut allwn ni ddefnyddio'r hyn a ddysgir ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf – ar ôl gweithio mewn partneriaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gallwn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd a'r sgiliau a ddatblygwyd er mwyn ymestyn yr arfer dda ymhellach.
- Cydnabod risgiau a chynnig camau lliniaru – cael cyfle ac amser i wneud hynny ac adlewyrchu wrth fynd ymlaen, yn arbennig o ran datblygu ffyrdd gwahanol o gyfranogi os nad oes modd newid diwrnodau ac amseroedd cyfarfodydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth weithio gydag unigolion o fewn cymunedau. Dyma rai syniadau gwahanol y gellir eu harchwilio:
  - a) O bosib, defnyddio sioeau teithiol cymunedol / trafodaethau stepen y drws i ymestyn y gwaith a defnyddio rôl cynghorwyr cymuned ac Aelodau Etholedig. Byddai hyn yn annog trafodaethau 'ar lawr gwlad' ac yn darparu gwybodaeth a safbwyntiau gwerthfawr y gellid eu cyflwyno i'r Aelodau Etholedig yn yr achosion hynny lle nad yw aelodau'r Panel Dinasyddion neu Llais Ni yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd.
  - b) Paneli defnyddwyr gwasanaeth - defnyddio sgiliau a phrofiadau grwpiau gwaith sydd wedi sefydlu eisoes fel enghraifft o arfer dda, rhai ohonynt sy'n gweithredu mewn partneriaeth â Chyngor Môn yn barod - Grŵp Strategaeth Ddigartrefedd Digartref, Cyngor Pobl Hŷn ayb. Gellid defnyddio'r grwpiau hyn ar gyfer gwaith yn ymwneud â phwnc penodol a gweithio'n uniongyrchol â nhw neu gyflwyno eu hymatebion i sgriwrtini trwy'r Panel Dinasyddion a Llais Ni.
  - c) Nodi'r heriau sy'n deillio o gynni ariannol neu dorri cyllidebau – beth allwn ni ei gyflawni'n realistig gyda'r adnoddau sydd gennym? Ydi cyllidebau llai yn y Cynghorau o reidrwydd yn golygu nad oes modd ymchwilio a chasglu

tystiolaeth? Bydd bod yn hyblyg ac yn greadigol o ran ein dulliau gweithredu'n caniatáu i ni weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau drwy ddatblygu'r dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu.

V1 [21/01/18]



## **ATODIAD 1**

### **Datganiad o Ddisgwyliad o Gydweithio – Rhwng Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn a'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid**

#### **CYD-DESTUN / PWRPAS**

Er mwyn gweithio tuag at well ymgysylltiad trwy Sgriwtini, mae'r ddogfen hon yn amlinellu sail cytundeb gwaith rhwng Sgriwtini gan Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn a'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid (Llais Ni).

Yn unol ag argymhellion y ddogfen bolisi '**Meithrin Democratiaeth Leol Gryfach Trwy Sgriwtini Effeithiol gan Aelodau**', bydd y datganiad yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cydweithio, yn cytuno ar drefniadau cydweithio a'u hadolygu ac yn nodi terfynau, rolau a chyfrifoldebau'r partion sydd ynghlwm â'r broses.

Bydd adran gyntaf y datganiad yn edrych ar yr egwyddorion a'r gwerthoedd i'w sefydlu, a'r ail yn nodi'r prif dasgau y dylid cytuno arnynt cyn ymgymryd â phob darn o waith ar y cyd.

#### **ADRAN 1: GWERTHOEDD AC EGWYDDORION**

- Cyfathrebu a Gofynion Iaith - bydd rhaid darparu deunyddiau ysgrifenedig, posteri, cyfarfodydd a chynnal trafodaethau mewn fformat sy'n hygyrch i bawb sy'n cymryd rhan a thrwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd eraill os oes angen. Drwy'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Egwyddorion Hawdd eu Deall y Grŵp FACE, a bydd gofyn iddo gymeradwyo Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – mae'n rhaid i gydweithio gydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ar sefydlu cynrychiolaeth amrywiol o breswylwyr lleol drwy Llais Ni a'r Panel Dinasyddion i sicrhau fod y gwaith yn adlewyrchu llais y gymuned ehangach.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth – mae'n rhaid cydnabod sgiliau a phrofiadau pawb sy'n cymryd rhan yn y cydweithio. Mae nifer yn meddu ar sgiliau a phrofiadau y gellir eu trosglwyddo i'r modd hwn o weithio ac mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan gytuno i wrando a dysgu gan ei gilydd ac i barchu'r hyn sydd gan bob unigolyn i'w gynnig i'r broses sgriwtini.
- Cefnogaeth weithredol – mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan fod yn fodlon rhoi cefnogaeth weithredol i'w gilydd drwy'r broses gan rannu gwybodaeth, amser ac adnoddau lle bo'n briodol i sicrhau y cyflawnir y deilliannau gorau.
- Ysbryd cyd-gynhyrchu, cydweithio a chydlynu - dylai cydweithio gydymffurfio ag arweiniad deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol A Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dull sy'n canolbwyntio ar y person.

#### **ADRAN 2: PRIF DASGAU**

- Adnabod pobl allweddol – mae'n bwysig adnabod y bobl sy'n gallu cynnig amser, ymrwymiad ac adnoddau i'r broses Sgriwtini. Hefyd, fod pobl yn cynrychioli'r boblogaeth leol o ran oedran, amrywiaeth a phroffil ieithyddol. Dylid cytuno ar brif berson cyswllt yng Nghyngor Sir Ynys Môn, y Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid ar ddechrau pob darn o waith.
- Gosod deilliannau clir - dylai'r grŵp weithio gyda'i gilydd i nodi beth maen nhw'n gobeithio ei gyflawni a diffinio deilliannau ar gyfer pob darn o waith.
- Amserlenni ac adnoddau – dylai'r grŵp sefydlu amserlenni clir, a phennu pa dasgau sydd angen eu cwblhau erbyn pryd, gan bwy, a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r tasgau hynny'n effeithiol.

- Sefydlu set o sgiliau – dylai'r grŵp edrych ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad pawb sy'n cymryd rhan a dyrannu gwaith ar sail hynny.
- Deall Polisiau ac Arferion Sefydliadol – dylai trefniadau cydweithio sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol, yn ogystal ag amserlenni a rhaglenni gwaith mewnol.
- Adolygu a monitro trefniadau gwaith - dylai'r grŵp nodi sut a phryd i adolygu trefniadau gwaith, ynghyd â phwy fydd yn gyfrifol. Yn ogystal, gallai hynny olygu penderfynu pa addasiadau sydd angen eu gwneud er mwyn gwella effeithiolrwydd a deilliannau'r trefniadau cydweithio.
- Adborth a gwerthuso - dylid gwerthuso pob darn o waith yn erbyn set o ddeilliannau. Dylai'r grŵp rannu gwybodaeth ynglŷn â sut y daethpwyd i benderfyniadau a pha effaith mae hynny'n ei gael ar gyflenwi gwasanaeth, yn ogystal â rhannu'r arfer orau a'r gwersi a ddysgwyd. Dylid rhannu'r wybodaeth oddi fewn i Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ehangach drwy'r Panel Dinasyddion a Llais Ni.

### **PROSES RECRIWTIO**

Er mwyn sicrhau fod trawstoriad cynrychiadol o'r gymuned yn cymryd rhan yn y broses, bydd recriwtio ar agor i holl aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid. Byddwn hefyd yn recriwtio'n agored drwy ein rhwydweithiau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gofynnir i bob person sy'n cofrestru diddordeb i gymryd rhan gwblhau ffurflen Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth er mwyn caniatáu i ni fonitro cynrychiolaeth ar ddechrau pob darn o waith ar y cyd.

Ar gyfer pob darn o waith ar y cyd bydd y Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid yn cyfyngu nifer y llefydd sydd ar gael i 10 aelod yr un.

Dylai'r gwerthoedd, egwyddorion a thasgau allweddol uchod ddarparu strwythur effeithiol ar gyfer cydweithio a dylid eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol o ran cyflawni'r deilliannau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu gwell trwy sgrwtini.

## **ATODIAD 2**

### **Ychwanegu Gwerth i Sgrwtini: Y Broses o Osod Cyllideb 2017/18 Gwerthusiad o adborth gan aelodau Cyngor Ieuenctid Ynys Môn, 'Llais Ni'**

#### **Nod**

Datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o sut mae prosesau sgrwtini'r Cyngor yn gweithio, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ac annog pobl ifanc i feddwl yn feirniadol am gwestiynau'r ymgynghoriad ar Gyllideb 2017/18 y bydden nhw'n ymateb iddynt. Yn dilyn ein gweithdy yn Cartio Môn gwahoddwyd 6 aelod o'r Cyngor Ieuenctid i gyfarfod o'r Panel Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 6 Chwefror 2017 er mwyn cael y profiad o wrando ar y Cyng. Llinos Medi, Pencampwr Pobl Ifanc, yn cyflwyno ei sylwadau heriol i weddill yr aelodau. Gwerthusiad yw hwn o brofiad y bobl ifanc yn dilyn derbyn adborth ganddyn nhw mewn grwpiau ffocws, trafodaethau drwy gyfrwng e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol.

#### **Barn gyffredinol**

'Yn gyffredinol roedd yn brofiad gwerth chweil ac yn ddefnyddiol er mwyn gweld sut mae'r Cyngor yn cael ei strwythuro a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.'

Ar y cyfan, roedd ymateb y bobl ifanc i weithdy dan y teitl, 'Sut mae'r Cyngor a Sgrwtini yn gweithio?' yn gadarnhaol iawn gyda'r mwyafrif yn fodlon â chynnwys y sesiwn. Yn ôl y bobl ifanc, roedd y wybodaeth a gyflwynwyd iddynt yn ddealladwy, yn glir ac yn ddefnyddiol iddyn nhw fel aelodau gweithgar o'r Cyngor Ieuenctid ac yn sicr roedd wedi paratoi'r aelodau hynny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod eu barn gyda phobl ddylanwadol a bod eu sylwadau'n cael eu cymryd o ddifrif, a'u cofnodi'n effeithiol.

Y teimlad a brofodd y grŵp yn ystod y Pwyllgor Sgrwtini oedd teimlad o falchder fod y pencampwr wedi cynrychioli lleisiau pobl ifanc Ynys Môn oddi fewn i brosesau'r Cyngor. Er eu bod yn deall y cyflwyniad yn ei gyfanrwydd, roeddent yn cael dipyn o anhawster i ddilyn gweddill y cyfarfod oherwydd ffurfioldeb y broses sgrwtini.

#### **Manteision y profiad**

Roedd y bobl ifanc yn gadarnhaol iawn ynglŷn â sut yr oeddent wedi elwa o fod yn rhan o'r prosiect o ran gweld sut mae'r Cyngor yn siapio ei gyllideb yn flynyddol a phwysigrwydd Sgrwtini i gwestiynau a blaenoriaethu gwasanaethau craidd fel rhan o'r penderfyniadau terfynol.

'Cefais lawer mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am y toriadau yn y gyllideb a lle'n union y maent yn bwriadu gwneud y toriadau, llawer mwy o wybodaeth nag oedd gennyf gynt.'

Yn bwysicaf oll, teimlai'r bobl ifanc fod y Cyngor wedi gwrandao arnyn nhw ac wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n rhan o'r broses. Roedd y rhan fwyaf yn credu y byddai dilyniant pendant i'r gwaith hyd yn oed os nad oedd eu sylwadau wedi gwneud gwahaniaeth.

'Teimlais y tro hwn fod y Cyngor wedi gwrandao ar fy marn ac wedi ei werthfawrogi go iawn.'

Mae'r bobl ifanc yn deall fod penderfyniadau'n mynd yn groes i'r farn boblogaidd ar brydiau a'i bod yn anodd i'r rhai sy'n gorfod gwneud penderfyniadau ond maent hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig i'r cyhoedd deimlo fod yr awdurdod yn gwrandao arnyn nhw ac yn ystyried y darlun llawn.

## Cyfraniad Pellach

Pan ofynnwyd iddynt ym mha fodd yr oeddent yn dymuno cyfrannu i Sgriwtini yn y dyfodol, ymatebion cymysg iawn a gafwyd gan y bobl ifanc. Yn ôl y disgwyl, roedd nifer ohonyn nhw'n croesawu'r cyfle i ddylanwadu ar bynciau megis addysg ac ysgolion, cyfleusterau cymunedol a hamdden gan eu bod yn gyfarwydd â'r gwasanaethau hynny ac yn eu defnyddio.

Roedd eraill yn teimlo y dylai'r Cyngor leuenctid ganolbwyntio ar bynciau fyddai'n rhoi rhywfaint o wrthrychedd i'r bobl ifanc yn hytrach na thrafod materion oedd yn cael effaith uniongyrchol arnyn nhw. Er bod manteision o weithredu yn y naill ffordd a'r llall, roedd y bobl ifanc yn teimlo y byddai eu safbwyntiau gwrthrychol yn caniatáu iddyn nhw feddwl am opsiynau / syniadau nad oedd y Cyngor wedi meddwl amdany'n nhw cyn hynny.

## Gwelliannau ar gyfer y dyfodol

Cafwyd nifer o safbwyntiau adeiladol gan y bobl ifanc pan ofynnwyd iddyn nhw awgrymu beth ddylai'r Cyngor ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Er iddyn nhw fanteisio ar y cyfle yn y gweithdy, roedd y rhan fwyaf yn teimlo y byddai'n well petaen nhw wedi cael mwy o amser i drafod gyda rheolwyr a Chynghorwyr ac i gwtogi peth ar y cyflwyniadau. Amlygodd un person ifanc bwysigrwydd defnyddio iaith bob dydd a defnyddio adnoddau gweledol (megis y fideo 'Cwrdd â'r Heriau 2017/18') er mwyn dal sylw'r gynulleidfa yn y dyfodol.

Fel arfer, un o bryderon pobl ifanc ynglŷn ag ymgysylltu â gwasanaethau yw'r diffyg adborth a roddir ar ddiwedd y broses. Mae'r bobl ifanc yn pwysleisio pwysigrwydd cau'r cylch er mwyn sicrhau fod dilyniant a phwrpas i'w cyfraniad yn y pendraw.

Wrth ystyried y pwysau ariannol ar y Cyngor Sir a'r effaith fydd hyn yn ei gael ar bobl Ynys Môn, roedd un person ifanc yn teimlo'n gryf y dylai'r Cyngor Sir roi mwy o sylw i gynllunio tymor hir er mwyn diogelu ein gwasanaethau. Awgrymodd y dylai staff y Cyngor ddarparu cefnogaeth ac adnoddau fel bod Cynghorwyr yn gallu hyrwyddo'r newid hwn.

'Credaf y dylid buddsoddi mwy o amser ac ymdrech i ganfod atebion tymor hir'

Wrth ystyried y broses ymgynghori, credai un person ifanc y dylai'r Cyngor estyn allan i'r boblogaeth ehangach a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad er mwyn cynyddu cyfradd yr ymatebwyr. Oherwydd bod ymgynghoriad y gyllideb ar-lein yn unig, awgrymodd fod y Cyngor yn cynnal diwrnodau gwybodaeth mewn canolfannau cymuned / neuaddau tref ac yn trefnu sesiynau holi ac ateb er mwyn cyrraedd y boblogaeth hŷn.

Yn ogystal, teimlai pobl ifanc y byddai gweithdai rhyngweithiol yn werthfawr i sefydliadau ieuencid eraill er mwyn eu haddysgu am broses ddemocrataidd yr awdurdod lleol a rhoi cyfleoedd iddynt leisio eu barn.

Er bod y bobl ifanc yn falch o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y prosiect, fe ddywedon nhw y byddai'n well ganddynt petai'r Cyngor wedi rhoi mwy o amser iddyn nhw fod yn rhan o'r broses gychwynnol ac i ystyried eu cyfraniad cyn lansio'r ymgynghoriad.

'(Hoffem ni gyfrannu at)... ddatblygu'r atebion yn hytrach na'r Gyllideb'.

Yn ogystal, yn dilyn y cyfarfod roedd rhai o'r bobl ifanc yn teimlo eu bod angen eglurhad pellach ar bwrpas y Pwyllgor Sgriwtini gan ofyn 'ai esbonio'r cynigion neu gasglu adborth oedd y pwrpas?'. Byddai'r bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael trafodaeth am eu rôl o fewn prosesau sgriwtini yn y dyfodol, ac i dderbyn cadarnhad a fyddant yn cymryd rhan fel ymgynghoreion ymgynghoriadau neu edrych ar broses a phwrpas sgriwtini.

Mae'r bobl ifanc yn ddiolchgar iawn am y cyfle i fod yn rhan o ddatblygu diwylliant cryfach o gyfranogiad ac ymgysylltiad gan ddinasyddion ym mhrosesau Sgriwtini'r Cyngor ac yn gobeithio y cânt gydweithio â chi eto yn y dyfodol agos.

**ATODIAD 3**

**A oes gennych ddiddordeb mewn darganfod sut mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud penderfyniadau?**

Rydym yn chwilio am bobl i gymryd rhan mewn prosiect mae Medrwn Môn yn gweithio arno gyda Cyngor Ynys Môn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r broses graffu

**Beth yw Craffu?**

Mae craffu yn cael ei ddefnyddio i wneud yn siŵr fod y Cyngorau Sir yn gweithioystal ag y gallant a'u bod yn atebol i anghenion eu cymunedau lleol

Mae craffu yn cael ei arwain gan Gyngorwyr lleol sy'n edrych ar sut mae gwasanaethau yn cyrraedd anghenion pobl leol a gwneud awgrymiadau neu argymhellion pan fo angen

**Mae craffu yn chwarae rôl allweddol mewn...**

1. Dal y penderfynwyr i gyfrif
2. Datblygu ac adolygu polisiau
3. Monitro a herio perfformiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd
4. Craffu amryw o gynigion gan gynnwys cyllideb blynyddol y Cyngor

**Rydym eisiau chi gymryd rhan!**

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â:  
Bethancpd@medrwnmon.org neu Llaisni@medrwnmon.org  
neu ffoniwch 01248 724944

**Diwrnod agored Cyngor Sir Ynys Môn**  
**Isle of Anglesey County Council open day**  
**31/10/2017**

Trefn y diwrnod:	Order of the day:
<b>9am – Cyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth</b>	9am – Meet the Senior Leadership Team
<b>9.30am – Cyfarfod Cadeirydd Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol, Cyng Aled Morris Jones ac Anwen Davies, Gwasanaethau Democraidaidd</b>	9.30am – Meet the Corporate Scrutiny Committee Chairman, Cllr Aled Morris Jones and Anwen Davies, Democratic Services
<b>10am - Mynychu Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol</b>	10am – Attend Corporate Scrutiny Committee
<b>11am – Taith dywys o gwmpas yr adeilad</b>	11am – Guided tour of the building
<b>12pm – Cinio a cyfarod yr Arweinydd, Cyng Llinos Medi</b>	12pm – Lunch & meet the Leader, Cllr Llinos Medi
<b>Darfod 2pm.</b>	<b>Ends 2pm.</b>

Cyngommon ioacc  
@cyngommon @angleseycouncil

**Cwrdd â'r Heriau**  
**Meeting the Challenges**  
**2018-19**

Poeni nad yw eich llais yn cael ei glywed gan y cyngor? Worried that your voice isn't being heard by the council?

Rydym angen chi i ddweud eich barn am ein cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2018-19. We want you to have your say on our draft budget proposals for 2018-19.

**Ble/ Where: Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni**  
**Pryd/ When: 11/12/2017**  
**Amser/ Time: 12pm-2pm**

Cysylltwch â Elin Parry, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus i gadarnhau niferoedd yn mynychu a rhestr o gwestiynau erbyn 4/12/2017: elinparry@ynysmon.gov.uk  
Please confirm numbers attending and a list of questions by 4/12/2017 to Elin Parry, Public Relations Officer: elinparry@ynysmon.gov.uk

## **ATODIAD 4**

### **Trosolwg o'r Sesiwn Sgriwtini – dydd Mawrth, 31 Hydref 2017**

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r sesiwn a drefnwyd mewn partneriaeth rhwng Medrwn Môn, drwy ei brosiect Lleisiau Lleol, a Chyngor Sir Ynys Môn ac yn ddilyniant i'r papur trafod ar y cyd 'Meithrin democratiaeth leol gryfach trwy sgriwtini effeithiol gan aelodau'.

Roedd amserlen y diwrnod yn cynnwys sesiwn gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151), sesiwn holi ac ateb gyda Chadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, taith o gwmpas Adeilad y Cyngor a sesiwn holi ac ateb gydag Arweinydd y Cyngor.

Roedd y canlynol yn bresennol yn y sesiwn:

5 aelod o'r Panel Dinasyddion

5 aelod o'r Cyngor Ieuenctid

2 ddefnyddiwr gwasanaeth o Digartref

Roedd y rhai oedd yn bresennol yn cynrychioli croestoriad da o gymunedau ar draws yr Ynys a chasglwyd gwybodaeth monitro cyfle cyfartal.

Recriwtiwyd yr aelodau cymunedol drwy broses agored, gan anfon gwahoddiadau i aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid, yn ogystal â hysbysebu ar facebook a Twitter. Daeth yr ymateb mwyaf gan aelodau'r Panel Dinasyddion yn sgil y negeseuon facebook.

Er mwyn sicrhau bod y sesiynau hyn mor adeiladol â phosib cyfyngwyd y niferoedd i 10 i bob grŵp.

Arsylwadau ac adborth:

Gofynnwyd i bob aelod o'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid a oedd yn bresennol gwblhau ffurflen werthuso ar ddiwedd y sesiwn. Dychwelwyd cyfanswm o 8 ffurflen.

O blith yr holl ffurflenni a ddychwelwyd, dywedodd pob un a oedd yn bresennol eu bod:

- a) Yn teimlo fod y paratodau ar gyfer yr ymweliad yn effeithiol
- b) Yn fodlon â'r wybodaeth a roddwyd iddynt yn Swyddfeydd y Cyngor
- c) Wedi mwynhau'r ymweliad ac yn teimlo fod y daith o gwmpas y swyddfeydd yn ddiddorol

Yn ystod y daith o gwmpas yr Adrannau gofynnodd aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid nifer o gwestiynau gwybodus am gyflenwi gwasanaethau a gwneud penderfyniadau a chafwyd rhyngweithio da rhyngddyn nhw a staff yr adrannau hynny. Dengys y ffurflenni adborth eu bod yn teimlo fod rhan hon y sesiwn yn ddefnyddiol a bod Swyddogion 'wedi gwneud eu gorau i ateb bob un o'n cwestiynau'. Ychwanegodd un y byddai wedi dymuno cael mwy o amser i ofyn cwestiynau.

Dywedodd nifer fod y sesiwn yn ei chyfanrwydd yn ddefnyddiol o ran rhoi gwybodaeth iddyn nhw am sut mae'r Cyngor yn gweithio. Dywedodd un aelod, 'Roedd y diwrnod yn un addysgiadol iawn ac mae'n hen bryd i'r Cyngor fod yn fwy agored ac yn haws mynd ato. Felly mae'n ymddangos fod hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir.'

Yn gyffredinol roedd y gwaith cynllunio ymlaen llaw a wnaethpwyd ar y cyd gan y Swyddog Sgriwtini, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Swyddogion Lleisiau Lleol y Panel Dinasyddion a Llais Ni yn golygu fod modd i aelodau'r gymuned ofyn cwestiynau gwybodus am brosesau Sgriwtini oddi fewn i Gyngor Môn, ac roeddent yn gallu bod yn fwy rhyngweithiol yn ystod y sesiwn yn hytrach nag arsylwi o'r cyrion.

**Gwersi a ddysgwyd:**

Mae'r ffurflenni gwerthuso wedi amlygu rhai meysydd i'w gwella. Cafwyd ychydig o fân sylwadau yn ymwneud fwy â gwelliannau ymarferol, megis yr angen i rannu gwybodaeth am leoliad y lifft, trefniadau iechyd a diogelwch a lleoliad yr allanfeydd tân ayb fel rhan o'r croeso a'r cyflwyniad.

Mae gweddill y sylwadau yn ymwneud ag aelodau'n dymuno treulio mwy o amser yn Siambr y Cyngor yn gwylio Cynghorwyr wrth eu gwaith. Roeddent yn deall fod rhan o'r cyfarfod yn gyfrinachol ond awgrymwyd efallai y byddai modd ymdrin â'r materion hynny gyntaf ac yna caniatáu i aelodau'r Panel Dinasyddion a Chyngor leuenctid ddod yn ôl i mewn, neu efallai y gallen nhw gymryd rhan mewn cyfarfod arall lle byddai'n bosib iddynt aros am y cyfarfod cyfan.

Yn ogystal, nodwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth rhwng y Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid a staff Medrwn Môn.

- a) Cyfieithu – Roedd aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid yn hapus i ddefnyddio'r offer cyfieithu ac yn fodlon i'r sesiynau anffurfiol gael eu cyflwyno'n ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd peth rhwystredigaeth oherwydd nad oedd yr offer cyfieithu'n gweithio. Roeddent yn teimlo mai pwrpas yr ymweliad oedd dangos iddyn nhw sut mae Sgriwtini'n gweithio ond ni fyddai hynny wedi digwydd oni bai fod y broblem gyda'r offer cyfieithu wedi'i datrys. Roedd aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid yn croesawu symud y cyfarfod i Siambr y Cyngor.
- b) Lluiaeth – byddai nifer o'r rhai oedd yn bresennol wedi gwerthfawrogi croeso a chyflwyniad llai ffurfiol yn ogystal â chael cynnig paned o de/coffi wrth gyrraedd.
- c) Roedd aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid wedi mwynhau'r sesiwn anffurfiol gyda'r Cyng. Aled Morris Jones a'r Cyng. Llinos Medi Huws - roedd hyn yn rhoi gwedd fwy personol i'r ymweliad a byddent yn dymuno cael mwy o gyfleoedd fel hyn.
- d) Roedd y wybodaeth yn amserol ac yn gosod cyd-destun - roedd hyn yn datblygu ar y gwaith gyda Llais Ni'r llynedd, ac roedd yr aelodau a oedd yn bresennol yn teimlo eu bod wedi eu dwyn i mewn yn gynharach yn y broses ac wedi cael mwy o ran yng nghynllunio'r camau nesaf.
- e) Er y gwelwyd newid sylweddol o ran ymgysylltu yn ystod y bore gan fod yn fwy agored a thryloyw, yn y gwerthusiad dywedodd rhai a oedd yn bresennol y byddai modd cyflwyno rhai elfennau o'r cyflwyniad mewn ffordd fwy cryno.

### **Argymhellion a chamau nesaf:**

Yn dilyn y sesiwn a gynhaliwyd ar ddiwedd yr ymweliad, rydym nawr yn cynnig ein bod yn parhau i gydweithio ar y broses hon yn ystod y mis neu ddau nesaf er mwyn cynnal diddordeb yr aelodau oedd yn bresennol a chynnal y momentwm sydd ei angen i'w hannog i barhau i weithio gyda ni hyd ddiwedd y broses Sgriwtini ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf. Mae'r canlynol yn rhestr o'r camau nesaf a argymhellir:

- a) Sesiwn gyda'r swyddog Adran 151 a Dr Gwynne i gael gwybodaeth am gyd-destun y gyllideb a sut mae'n gweithio - h.y. arian wedi'i glustnodi, beth ellir ac na ellir ei symud rhwng penawdau ariannol, a oes modd i adrannau rannu cyllidebau? ayb
- b) Gweithdy ar rôl a phwrpas sgriwtini (yn seiliedig ar y sesiwn gyda Llais Ni y llynedd), yn nodi ac yn esbonio'r sgiliau hanfodol ar gyfer sgriwtini (<https://medium.com/localgovernmentscrutiny/9-essential-skills-for-effective-scrutiny-a784d48fcd19>), yr amserlen a'r broses, ayb
- c) Medrwn Môn a phartneriaid Lleisiau Lleol i rannu Cynigion y Gyllideb gyda'r Panel Dinasyddion a Llais Ni a chynnal sesiwn i gasglu cwestiynau gwybodus ynglŷn â chynigion y gyllideb.
- d) Sesiwn Sedd Boeth/Holi ac Ateb gydag aelodau portffolio a/neu Benaethiaid Gwasanaeth gyda'r cwestiynau a gasglwyd yn ystod y sesiwn a amlinellir yn 3 uchod.
- e) Darparu amserlen wedi ei symleiddio o gyfarfodydd a sesiynau i'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid.

Awgrymir fod y Cyngor yn cynnig dyddiadau, amseroedd, ayb i'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor leuenctid sy'n gyfleus i'r Cynghorwyr, Swyddogion a staff y cyngor sy'n rhan o'r



broses ac y byddant yn bresennol yn y sesiynau yn unol â'r trefniadau. Yn y cyfamser byddwn hefyd yn gweithio drwy'r rhaglen Lleisiau Lleol i gael unigolion i ymateb yn uniongyrchol i'r Ymgynghoriad a'r Gyllideb.

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
<b>Dyddiad:</b>	5 Chwefror 2018
<b>Pwnc:</b>	Panel Sgriwtini Cyllid
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	Y diweddaraaf am gynnydd ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid
<b>Cadeirydd Sgriwtini:</b>	Cyng Aled Morris Jones
<b>Aelod (au) Portffolio:</b>	Cyng John Griffith
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones, Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adain 151
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini
<b>Ffôn:</b>	01248 752578
<b>E-bost:</b>	<a href="mailto:AnwenDavies@ynysmon.gov.uk">AnwenDavies@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Aelodau Lleol:</b>	Ddim yn berthnasol

### 1 - Argymhelliad / Argymhellion

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd a wnaed hyd yn hyn â gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid
- Mae'n ymddangos fod y prosesau hynny sy'n ymwneud â monitro'r gyllideb ar gyfer 2017/18 a gosod cyllideb ar gyfer 2018/19 ar y trywydd iawn hyd yn hyn
- Y rhaglen ddatblygu sgriwtini ariannol ar gyfer aelodau'r Panel sy'n cael ei chyflwyno gan CIPFA Cymru

**A2** Uchafu'r mater canlynol ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

- Mynegi pryder ynglŷn â'r gorwariant yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Hefyd, nodi bod y Panel, fel y cam cyntaf, wedi gwahodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Dysgu i roi esboniad o'r sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth a'r mesurau lliniaru y bwriedir eu rhoi ar waith i reoli'r gorwariant. Bydd y Panel yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei ganfyddiadau maes o law.

### 2 - Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cysylltiad uniongyrchol rhwng Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid a'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Bydd y sylw a rydd y Panel i faterion cyllidebol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith bod y Cyngor yn ymateb yn gadarn ar faterion ariannol a bod camau ar waith i liniaru unrhyw risgiau.

### 3 - Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Aelodau Sgriwtini

I gynorthwyo Aelodau pan fyddant yn craffu'r pwnc: -

**3.1** Effaith a gaiff y mater ar unigolion a chymunedau [**canolbwyntio ar y cwsmer / dinesydd**]

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – o safbwynt ariannol ac o ran ansawdd [**ffocws ar werth**]

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [**ffocws ar risg**]

**3.4** Sgriwtini yn cymryd arno rôl monitro perfformiad neu sicrhau ansawdd [**ffocws ar berfformiad ac ansawdd**]

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Y tymor hir
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[**ffocws ar les**]

### 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Ar gais y Panel:

1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaeth y ffrydiau gwaith yn rhaglen waith y Panel?
2. A yw gweithredoedd y Panel hyd yma yn ddigon cadarn?

### 5 - Cefndir / Cyd-destun

#### 1.1 CEFNDIR

1.1.1 Bydd yr Aelodau eisoes yn ymwybodol bod y swyddogaeth sgriwtini wedi datblygu dros y misoedd diwethaf trwy waith 3 phanel sgriwtini sef – Panel Sgriwtini Cyllid, Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran y **Panel Sgriwtini Cyllid**.

#### 2.2 Trefniadau Llywodraethu'r Panel

Fel yr adroddwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn ddiweddar<sup>1</sup>, sefydlwyd trefniadau llywodraethu cadarn i ategu gwaith y Panel a'r bwriad yw ceisio parhau i gynnull cyfarfodydd o'r Panel yn rheolaidd, yn unol ag amserlen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer monitro'r gyllideb yn ogystal â phroses yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb. Mae proses wedi ei sefydlu i sicrhau y bydd adroddiadau rheolaidd, chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn gan y Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams, fel cynrychiolwyr Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel.

#### 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

2.1 Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi cyfarfod chwe gwaith hyd yn hyn, ar:

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2017

- 17 Awst, 2017
- 29 Medi, 2017
- 25 Hydref, 2017
- 1 Rhagfyr, 2017
- 5 Ionawr, 2018
- 2 Chwefror, 2018

Ynglwm (**ATODIAD 1**) ceir copi o'r fersiwn ddiweddaraf o raglen waith y Panel.

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel yn Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018. Ceir diweddariad llafar ar gyfarfod diwethaf y Panel (02/02/18) yn y Pwyllgor:

- **Materion llywodraethu** - mae trefniadau llywodraethu clir ar waith (gan gynnwys cylch gorchwyl) a rhaglen waith sy'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith y Panel. Mae CIPFA Cymru hefyd o'r un farn.
- **Mewnbwn arbenigol allanol** - ar gais aelodau'r Panel, mae mewnbwn arbenigol allanol yn cael ei hwyluso gan CIPFA Cymru er mwyn ein cynorthwyo i werthuso a dangos tystiolaeth o effaith a gwerth ychwanegol gwaith y Panel. Mae mewnbwn CIPFA Cymru hefyd yn cynnwys sesiynau datblygu a mentora pwrpasol ar sgrïwtini ariannol ym mhob cyfarfod. Mae'r Panel wedi cytuno i rannu canlyniadau'r ffrwd waith hon er mwyn datblygu arfer dda ar lefel genedlaethol
- **Sesiynau hyfforddi a datblygu / gwybodaeth** – mae'r sesiynau hyn wedi'u hymgorffori yn rhaglen waith y Panel ac fe'u cynhelir ar ddechrau pob cyfarfod o'r Panel. Mae'r pynciau a drafodwyd dros y misoedd diwethaf wedi cynnwys - ystyriaeth fanwl o'r Polisi Gostyngiadau Trethi Busnes - egwyddorion, rhagdybiaethau a phroses (cyfarfod mis Rhagfyr y Panel). Fe wnaeth CIPFA Cymru hwyluso sesiwn yng nghyfarfod mis Ionawr ar strategaethau holi effeithiol ar faterion ariannol. Mae'r mewnbwn allanol hwn i waith y Panel yn darparu sylfaen gadarn i alluogi a chefnogi datblygiad sgrïwtini ariannol effeithiol yn yr Awdurdod, gan adeiladu gwydnwch i mewn i'n harferion a'n prosesau sgrïwtini.
- Ystyriaeth fanwl mewn perthynas â **Thema 1 - Monitro'r Gyllideb** - gyda'r Panel yn mabwysiadu'r farn gychwynnol y dylai ei swyddogaeth ganolbwyntio ar graffu ar ymateb y Pwyllgor Gwaith i fonitro cyllideb (refeniw, cyfalaf a HRA<sup>2</sup>) chwarteri 1 a 2 (yn hytrach na chraffu cyn gwneud penderfyniad). Rhagwelwyd y gallai'r ymagwedd hon gefnogi'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau gwell. Craffodd y Panel ymateb y Pwyllgor Gwaith i adroddiad Ch2 ar berfformiad y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 01/12/17. Roedd yr Aelod Portffolio Adnoddau yn bresennol ar gyfer y drafodaeth hon er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol ac i ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Panel.
- **Pwysau ariannol 2017/18** - mae craffu ar y pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Panel a gofynnwyd am wybodaeth bellach gan y Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer ei

<sup>2</sup> Cyfrif Refeniw Tai

hystyried yng nghyfarfod nesaf y Panel<sup>3</sup>. Cyflwynir adroddiad ar ganlyniad y gwaith hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol maes o law

- Yn y cyfarfod diwethaf<sup>4</sup>, rhoddodd y Panel ystyriaeth bellach i **Thema 3 – y broses flynyddol ar gyfer gosod y gyllideb** a oedd yn cynnwys edrych ar y sefyllfa bresennol o ran proses a'r cysylltiadau â'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Derbyniodd y Panel hefyd wybodaeth am y prif negeseuon cychwynnol o'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar gynigion cyllidebol y Cyngor am 2018/19.
- **Rhaglen waith ac effaith sgriwtini** - mae'r Panel wedi cyflwyno hunan-arfarniad rheolaidd o berfformiad ar ddiwedd pob cyfarfod, eto wedi ei hwyluso gan CIPFA. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod yr arfer hon yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ac effeithiolrwydd craffu ariannol gan y Panel. Fel canlyniad cyntaf, mae'r Panel wedi cydnabod yr angen i sicrhau gwell cydlyniant rhwng cylchoedd cyllidebol y Cyngor a blaenraglen waith y Panel. Bydd yr adolygiad hwn o'r rhaglen waith yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Panel.

### 3. MATERION I'W UCHAFU AR GYFER EU TRAFOD GAN Y RHIANT BWYLLGOR

Uchafu'r mater canlynol ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

3.1 Y gorwariant cyfredol a'r pwysau cyllidebol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynghylch cadernid gweithredoedd y Panel hyd yn hyn.

### 6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol

### 7 - Goblygiadau Ariannol

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr elfennau canlynol o waith y Panel Sgriwtini Cyllid:

- i. Monitro perfformiad cyllideb referniw 2017/18
- ii. Y broses o osod cyllideb ar gyfer 2018/19.

### 8 - Atodiadau:

1. Rhaglen waith y Panel Sgriwtini Cyllid

### 9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

<sup>3</sup> Cynhelir cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid ar 2 Chwefror, 2018

<sup>4</sup> Y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 5 Ionawr, 2018

Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor,  
Llangefni. LL77 7HF

**Cyng Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams**  
**Aelodau Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid**  
**Dyddiad: 24/01/18**

**PANEL SGRIWTINI CYLLID – RHAGLEN WAITH /  
FINANCE SCRUTINY PANEL – WORK PROGRAMME**

CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE
<b>AWST → RHAGFYR, 2017 AUGUST → DECEMBER, 2017</b>				
<b>1</b>	<b>AWST AUGUST</b> 17/08/17 [2.00 – 4.00]	Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Cyllid Llywodraeth Leol <i>Development session/awareness raising → Local Government Finance</i>		
		CG, Cynllun Prosiect a gosod y cyd-destun / <i>TOR, Project Plan &amp; setting the scene</i>		
		Thema 1: <b>Monitro'r Gyllideb</b> (CH 4: 2016/17) / <b>Budget Monitoring</b> (Qtr 4: 2016/17)		
		Rhaglen waith ac anghenion datblygu / <i>Work programme and development needs</i>		
<b>2</b>	<b>MEDI SEPTEMBER</b> 29/09/17 [9.30 – 12.30]	Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Egwyddorion/rhagdybiaethau'n sail i'r Cynllun Cyllidol Tymor Canol <i>Development session/awareness raising → Theme 2: Principles/assumptions underpinning the Medium Term Financial Plan</i>		



CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE
		Cylch Gorchwyl terfynol / <i>Final Terms of Reference</i>		
		Thema 1: <b>Monitro'r Gyllideb</b> (CH 1: 2017/18) – cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith / <b>Budget Monitoring</b> (QTR 1: 2017/18) – <i>a closer look at the response of the Executive</i>		
		Thema 2: <b>Cynllun Cyllidol Tymor Canol</b> – cymryd golwg manwl; herio'r rhagdybiaethau; cyswllt efo arbedion arfaethedig 2018/19 / <b>Theme 2: Medium Term Financial Plan</b> – <i>a closer look; scrutinise assumptions; link to 2018/19 proposed efficiencies</i>		
		Rhaglen waith ac anghenion datblygu / <i>Work programme and development needs</i>		
3	<b>HYDREF / OCTOBER</b> 25/10/17 [10.00 – 12.30]	Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Proses o sefydlu'r gyllideb flynyddol <i>Development session/awareness raising → Annual budget setting process</i>		

CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE
		<p>Thema 3: <b>Proses sefydlu cyllideb flynyddol</b> – cymryd golwg manwl; herio'r cynigion cychwynnol: craffu unrhyw argymhellion mewn perthynas â chynnydd yn y Dreth Gyngor</p> <p><i>Theme 3: <b>Annual budget setting process</b> – a closer look; scrutinise initial proposals; scrutinise any proposals relating to an increase in the Council Tax</i></p>	<p>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / <i>Corporate Scrutiny Committee</i>, 31/10/17</p>	<p>Pwyllgor Gwaith / <i>Executive</i>, 06/11/17</p>
		<p>Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / <i>Work programme and development needs (review)</i></p>		
4	<p><b>RHAGFYR / DECEMBER</b> 01/12/17 [9.30 – 12.00]</p>	<p>Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Egwyddorion/rhagdybiaethau'n sail i'r Polisi Rhyddhad Treth Busnes <i>Development session/awareness raising → Principles/assumptions underpinning the Business Tax Relief Policy</i></p>		
		<p>Thema 1: <b>Monitro'r Gyllideb</b> (CH 2: 2017/18) – cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith / <b>Budget Monitoring</b> (QTR 2: 2017/18) – a closer look at the response of the Executive</p>		

CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE
		Thema 4: <b>Polisi Rhyddhad Treth Busnes</b> - cymryd golwg manwl; craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau <i>Theme 4: <b>Business Tax Relief Policy</b> – take a closer look; scrutinise the underpinning principles and assumptions</i>		
		Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / <i>Work programme and development needs (review)</i>		
<b>IONAWR → MAI, 2018</b> <b>JANUARY → MAY, 2018</b>				
5.	<b>IONAWR / JANUARY</b> 04/01/18 [3.00 – 5.00*]  (Ar godiad y Sesiwn Briffio Aelodau)	<b>Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Cwestiynu effeithiol</b> <i>Development session/awareness raising → Effective questioning</i>		
		Thema 3: <b>Proses sefydlu cyllideb flynyddol</b> – cymryd golwg manwl yn sgîl sylwadau dderbyniwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus / <i>Theme 3: <b>Annual budget setting process</b> – a closer look in light of comments received during the recent Public Consultation</i>  Pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Plant a'r	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / <i>Corporate Scrutiny Committee, 05/02/18</i>	Pwyllgor Gwaith / <i>Executive, 18/02/18</i>

CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE
		<p>Gwasanaeth Dysgu / <i>Budget pressures in Children's Services and the Learning Service</i></p> <p>Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / <i>Work programme and development needs (review)</i></p>		
8.	<b>CHWEFROR / FEBRUARY</b> 02/02/18 [9.00 – 12.00]	<b>Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth</b> → Egwyddorion a rhagdybiaethau'n sail i Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai <i>Development session/awareness raising</i> → <i>Principles and assumptions underpinning the Housing Revenue Account</i>		
		Pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu (parhad) / <i>Budget pressures in Children's Services and the Learning Service (continuation)</i>		
		Thema 1: <b>Monitro'r Gyllideb</b> (CH 3: 2017/18) – cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith / <i>Theme 1: Budget Monitoring</i> (QTR 3: 2017/18) – a closer look at the response of the Executive		
		Thema 6: <b>Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai</b> – cymryd golwg manwl; herio'r rhagdybiaethau; cyswllt efo cyllideb arfaethedig 2018/19 / <i>Theme 6: Housing Revenue Account Business Plan</i> – a closer		

CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE
		<i>look; scrutinise assumptions; link to 2018/19 proposed budget</i>		
9.	<b>MAWRTH / MARCH</b> (diwedd mis dechrau Ebrill)	<p>Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → adolygu cynnydd gwaith y panel / gwerthusiad</p> <p><i>Development session/awareness raising → progress review / evaluation</i></p> <p>Gwerthuso effaith gwaith craffu'r Panel rhwng Awst, 2017 → Chwefror, 2018; cynnig argymhellion i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o ran rhaglen waith y Panel yn ystod 2018/19 /</p> <p><i>Evaluate the impact of the Panel's scrutiny work between August, 2017 → February, 2018; make proposals to the Corporate Scrutiny Committee on the Panel's work programme for 2018/19</i></p>	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / Corporate Scrutiny Committee, 09/04/18	Pwyllgor Gwaith / Executive, 30/04/18
<b>28/02/18 → Cyngor Sir yn derbyn cyllideb ddrafft 2018/19, i'w mabwysiadu / Full Council to receive the 2018/19 draft budget, for adoption</b>				
<b>MEHEFIN →</b> <b>JUNE →</b>				

CYFARFOD / MEETING	DYDDIAD / DATE	PWNC / SUBJECT	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE	ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / REPORT TO EXECUTIVE



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



## **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018**

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones  
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 hyd at Fai 2018. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)  
Ffôn: 01248 752578

E-bost: [AnwenDavies@ynysmon.gov.uk](mailto:AnwenDavies@ynysmon.gov.uk)

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
31 Mai 2017	Ethol Cadeirydd y Pwyllgor	Trefniadau llywodraethiant effeithiol	Ystafell Bwyllgor 1 / 3.30yh
	Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor	Trefniadau llywodraethiant effeithiol	
<b>Mehefin, 2017</b>			
26 Mehefin 2017 [CH4: 2016/17]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17 Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad	Monitro perfformiad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yh
	Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17	Monitro perfformiad	
	Strategaeth Tai Gwag 2017/2022	Datblygu Polisi	
	Aelodaeth Paneli a Byrddau	Enwebu Aelodau	
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
<b>Gorffennaf, 2017</b>			
11 Gorffennaf 2017 [Cyfarfod arbennig]	Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangedfni	Sgrwtini cyn penderfyniad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp
	Moderneiddio Ysgolion - Rhaglen Amlinellol Strategol - Band B (2019/24)	Trawsnewid	
	Monitro cynnydd - Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	
	Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion	Enwebu Aelodau	
<b>Medi, 2017</b>			
4 Medi 2017 [CH1: 2017/18]	Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1 ] 2017/18	Monitro perfformiad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp
	Cynllun y Cyngor 2017/2022	Sgrwtini cyn penderfyniad	
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	
	Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant		
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17)	Er gwybodaeth / monitro perfformiad		
<b>Hydref, 2017</b>			
2 Hydref 2017 [Cyfarfod arbennig]	Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC)	Monitro perfformiad	Ystafell Bwyllgor 1/ 10yb

Tudalen 32



Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
	Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17	Monitro perfformiad	
	Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol	Sgrwtini cyn penderfyniad	
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol	Sgrwtini cyn penderfyniad	
<b>31 Hydref 2017</b> [Cyllideb]	Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19	Sgrwtini cyn penderfyniad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yb
	Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19	Sgrwtini cyn penderfyniad	
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgrwtini Cyllid	Monitro perfformiad	
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
<b>Tachwedd, 2017</b>			
<b>13 Tachwedd 2017</b> [CH2: 2017/18]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18	Monitro perfformiad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp
	Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd	Trawsnewid	
	Strategaeth Rheoli Asedau -Tai Cyngor	Datblygu Polisi	
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	
	Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant		
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
<b>Ionawr, 2018</b>			
<b>31 Ionawr, 2018</b> [Cyfarfod arbennig]	Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgîl y broses ymgysylltu)	Trawsnewid	Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	
	Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant		
	Cludiant ysgol	Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad	
	Rhaglen Wella Mân-ddaliadau	Rhybudd o gynnig o'r Cyngor Llawn	

Tudalen 33

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
	Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17)	Monitro perfformiad – er gwybodaeth	
<b>Chwefror, 2018</b>			
<b>5 Chwefror 2018</b> [Cyllideb]	Cyllideb Ddrafft 2018/19	Sgriwtini cyn penderfyniad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
<b>Mawrth, 2018</b>			
<b>12 Mawrth 2018</b> [CH3: 2017/18]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18	Monitro perfformiad	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol	Trawsnewid	
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn)	Trawsnewid	
	Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth	Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17]	
	Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu	Trawsnewid	
	Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden Anstatudol (cyfnod 3 mlynedd) (i'w gadarnhau)	Trawsnewid	
	Cynllun Gofal Plant / Aseiad Digonolrwydd Chwarae (i'w gadarnhau)	Monitro perfformiad	
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
<b>Ebrill, 2018</b>			
<b>9 Ebrill 2018</b>	Strategaeth Ddigartref (i'w gadarnhau)	Datblygu Polisi	Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp
	Adroddiad Cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	
	Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris (i'w gadarnhau)	Monitro perfformiad Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17	
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	
<b>O fis Mai, 2018</b>			
Mehefin, 2018	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18	Monitro perfformiad	

Tudalen 34

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
Mehefin, 2018	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	
Mehefin, 2018	Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	
Chwefror, 2018	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini Cyllid)	Sgriwtini cyn penderfyniad	
I'w gadarnhau	Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir a Bodffordd)	Trawsnewid	
I'w gadarnhau	Rheoli Ynni	Monitro perfformiad (Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/10/17)	
I'w gadarnhau	Effeithiau Diwygio Lles	Monitro perfformiad	
I'w gadarnhau (Medi/Hydref, 2018)	Adolygiad o gynnydd - Cynllun y Cyngor (ar ddiwedd 12 mis)	Monitro perfformiad	
I'w gadarnhau	Blaen raglen waith: 2018/19	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol	

This page is intentionally left blank